

ECO'R WYDDFA

Rhif 137

MEHEFIN 1988

Pris 20c

YN Y SEINDORF CENEDLAETHOL



Dyma i chwi hogiau sydd â pherffaith hawl i chwythu eu cyrn eu hunain y dyddiau yma! Dewisiwyd y tri, sy'n aelodau o Seindorf Arian Deiniolen, o blith ugeiniau o fandwyr ieuanc o bob cwr o'r wlad, ar gyfer Seindorf Pres Ieuencid Cymru.

Anrhydedd yn wir i'r tri talentog, sef Julian Joaniddi ac Iwan Williams (corned) a Dylan Williams (corn) sydd wedi ei ddewis fel eilydd. Mae'n anrhydedd arbennig hefyd i Ddeiniolen ac yn deyrnged deilwng i waith Seindorf Arian y pentref.

Pob hwyl iddynt yn ystod yr amser prysur sydd o'u blaenau.

ENNILL GWOBR EFYDD DUG CAEREDIN

Mewn seremoni arbennig yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, cyflwynwyd Gwobr Efydd Dug Caeredin i saith o ddisgyblion yr ysgol gan Gadeirydd Cyngor Sir Gwynedd Capten Alex Robertson, ynghyd â Chadeirydd y Pwyllgor Addysg, y Cynghorydd R. Cynrig Williams.

Y saith disgybl a dderbyniodd wobr oedd:

Amlyn Llwyd Evans, Richard Parry, Michael Wroe, David Jacobs, Agnes Choy, Barley Massey, Darren Lamb.

I'r disgyblion ennill eu gwobrau golygodd flwyddyn gyfan o waith caled yn eu horiau sbar. Ymhlith y tasgau yr oedd gwasanaethu'r gymuned gyda sefydliadau fel y

gwasanaeth tân a'r badau achub. Buont yn datblygu sgiliau fel ffotograffiaeth, cerddoriaeth, celf a dylunio. Roedd elfen chwaraeon fel nofio, sgio a thenis ac yr oedd antur fawr a olygai aros allan dros nos mewn hosteli ieuencid neu dan ganfas ar y mynydd.

Cafwyd darlithoedd ar bynciau fel y Côd Cefn Gwlad, darllen mapiau, coginio yn yr awyr agored, diogelwch a chymorth cyntaf.

Dymuna eu hathrawes Mrs Wroe, a arolygodd eu gwaith ddiolch yn arbennig i John Yates sy'n gyfrifol am Ganolfannau Bryn Du a Hafod Meurig Llanberis am gynnig hyfforddiant yn rhad ac am ddim i'r disgyblion hyn.



POB HWYL

DYNA'N DYMUNIAID I BOB UN OHONOC FYDD YN CYSTADLU YN EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD YN Y DRENEWYDD DDECHRAU'R MIS.

TLWS ECO'R WYDDFA

PÊL DROED 7 BOB OCHR I BLANT YSGOLION CYNRADD BRO'R ECO - CAE YSGOL GYNRADD LLANRUG NOS FERCHER MEHEFIN 15 AM 6.30. CYSYLLTWCH Â TWROG JONES C'FON 4051.

CYFARFOD BLYNYDDOL YR ECO

Wyth yn unig oedd yn bresennol yng Nghyfarfod Blynyddol "Eco'r Wyddfa" a gynhaliwyd yn y Neuadd, Bethel ar y Sed o Fai.

Penderfynwyd fod drafft o gyfansoddiad yr "Eco" yn cael ei baratoi erbyn fis Hydref eleni, a bod Cyfarfod Cyffredinol Arbennig yn cael ei alw'n ystod y mis hwnnw i'w fabwysiadu.

Derbyniwyd yr adroddiadau arferol gan olygyddion a swyddogion y papur. Diolchwyd i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y papur yn ystod y flwyddyn. Adroddwyd fod gwir angen am drefnydd plygu a gwneir apel ar i unrhyw un sy'n fodlon helpu gyda'r gwaith i gysylltu â'r golygyddion. Gwnaethpwyd apel arbennig ar i'r rhai sy'n benthyca'r camera, i anfon gwybodaeth ysgrifenedig i'r golygyddion ynglŷn â'r llun neu luniau.

Mabwysiadwyd yr adroddiad ariannol a gyflwynir isod.

CYFRIFON AM Y FLWYDDYN I 31ain MAWRTH 1988

1986-7	DERBYNIADAU	1987-88
£		£
4938.56	Gwerthiant	4372.26
3547.00	Hysbysebion	4193.25
374.30	Rhoddion	433.00
777.00	Grantiau - Cymd. Celfyddydau	803.53
	- Cynghorau Cymuned	
5.00	Betws Garmon	10.00
100.00	Llanberis	25.00
50.00	Llanddeiniolen	50.00
200.00	Llanrug	220.00
25.00	Waunfawr	30.00
217.28	Llog	1138.53
10234.14		172.74
		10309.78
TALIADAU		
9307.00	Argraffu	9982.98
193.16	Ffotograffiaeth	103.19
26.98	Biliau, amlenni, a.y.m.	20.70
178.39	Stampiau	179.02
7.00	Gwobrau	0.00
6.64	Cystadleuaeth Pêl-droed	13.44
5.00	Llogi ystafell	0.00
9724.17		10299.33
509.97	Incwm yn fwy na gwariant	10.45
4178.70	Cronfa'r Eco - 1af Ebrill	4688.67
509.97	Elw'r flwyddyn	10.45
4688.67	Yn y Banc ac mewn llaw 31 Mawrth	4699.12

HEN LUNIAU O'R ORIEL

Fe gofiwch beth amser yn ôl i'r Gymdeithas Hanes apelio ar i drigolion Bro Eco'r Wyddfa fynd ati i gasglu hen luniau at ei gilydd. Mae'r apel yn parhau ac os bydd yr ymateb yn ffafriol bwriedir eu harddangos yn Oriel Eryri ym Mis Medi.

Y prif gysylltwr yw Arwel Jones, Pant Hywel, Penisarwaun (Llanberis 871274). Gallwch gysylltu ag o yn uniongyrchol neu â'r canlynol: Mrs Gwyneth Chick, Cwm-y-Glo; Mrs Maureen Lennon a Mr Gwynfor Roberts, Moss Bank Llanberis; Mr Dafydd Whiteside Thomas, Llanrug; Mrs Ann Evans, Penisarwaun; Miss Lowri Prys Roberts, Brynrefail; Miss Iola Llewelyn Gruffydd a Mrs Margaret Cynfi Gruffydd, Deiniolen. Aelodau'r Gymdeithas Hanes Dinorwig; Mr Rol Williams, Waunfawr; Mr Deiniol Hughes, Caeathro. Mae ambell i ardal heb gynrychiolydd a hoffai'r prif gysylltwr dderbyn enw unrhyw un fyddai'n fodlon cynorthwyo.

Dowch i gysylltiad mor fuan ag sydd modd.

Mân Hysbysebion

Mae croeso i chwi ddefnyddio eich papur bro os ydych eisiau prynu neu eisiau gwerthu rhywbeth. Codwch y ffôn, neu anfonwch y wybodaeth at unrhyw un o'r golygyddion, neu at ohebydd eich pentref. (Mae enghreifftiau yn y rhifyn hwn). Cofiwch, mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim. Felly, dewch 'mlaen, does gennych űdim i'w golli - ond gallasech fod ar eich ennill!!

ECO'R WYDDFA

**RHIF 137
MEHEFIN**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru*

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas,
Bron-y-Nant, Pontrhythallt, Llanrug.
(C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI:
Nant Roberts, 'Arwel', Pontrhythallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs Olwen
Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug.
(Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones,
60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug. (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHANT POST:
Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed. 870580.

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen. (Caernarfon 3536)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams 6 Rhyd
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D.J. Thomas, 8 Maes
Eilian. (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl
Elidir, Llanberis.

LLANRUG: Mrs Gillian Morris,
Annedd Wen, Tal-y-bont.
(Caernarfon 76075)

NANT PERIS: Mrs Mary Ff. Roberts,
Cerrig-y-drudion, Nant Peris.
(871327)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU MEHEFIN 30
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
**NOS FAWRTH
MEHEFIN 21**
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

TEULU TAN-Y-MARCHLYN

Annwyl Olygydd,

Darllenais gyda diddordeb llythyr
Mr Carrington o Blaen, yn rhifyn Mai
o'r Eco.

Rai blynyddoedd yn ôl — 8 neu 10
efallai — daeth Americanwr i'r drws
'ma efo darlun o hen fwthyn a gofyn a
wyddem ble 'roedd. Llwyddwyd i'w
nabod fel Tan y Marchlyn. Roedd y
gŵr bonheddig yn ei ddagrau pan
glywodd yr enw oherwydd cartref ei
daid Wm Pritchard ydoedd. "You
must forgive me," meddai, "this is a
very emotional moment for me".

Eglurodd fel y bu i'w daid ymfudo
i'r America yn ddyn ifanc, a chyfarfod
yno eneth o Fynydd Llandegai (nas
gwelsai cynt er mai prin ddwy filltir
oedd rhwng eu cartrefi yng
Nghymru!) a'i phriodi.

Aed â'r gŵr (Wm Pritchard van
Buskirk) i fyny at yr hen furddun, a
thynnodd luniau ohono o bob
cyfeiriad. Gofynnodd faint o dir oedd
yno, a phan roddwyd syniad iddo,
roedd yn chwethrin yn arw. Byddai ei
daid, medda fo, yn sôn am y fferm
gartref yng Nghymru fel ryw 'ranch'
fawr, a'i nain yn edliw iddo mai ryw
ddau gae oedd ganddo!

Pan ddaethant yn ôl, roeddwn wedi
cael hyd i hen adroddiadau Capel
Cefnywaun, yn dangos bod y tad
(Wm Pritchard arall) wedi marw yn
1885, y mab Wm Pritchard (ia) wedi
ymfudo ym 1887, a'r fam, Elizabeth
wedi marw ym 1888. Dim ond y
ffeithiau moel sydd yna, ond mae'n
siŵr bod stori yn rhywle.

Roedd Wm. P. van Buskirk wedi
gwirioni efo'r mymryn yma, ac mae'n
dal i sgrifennu yma, gan estyn
gwahoddiad cynnes i ni fynd draw.

Rwyf yn meddwl iddo sôn am ei
fodryb Blodwen, neu ei chwaer
efallai, felly, mae'n siŵr mai dyma'r
wraig yn y llythyr.

Dyma'i gyfeiriad —

W. P. van Buskirk

RDI Box 1354

Bangor,

Pennsylvania

U.S.A.

O.N. Rwyf yn gobeithio sgrifennu
peth o hanes y capel a'r ardal, does
wybod ar y ddaear pa stori ddaw i'r
golwg.

Yn gywir,

Margaret Cynfi Griffith,

Cynfi

Deiniolen.

HOGIAU PENISARWAUN

Annwyl Syr,

Wedi darllen y penillion Hogiau
Penisarwaun, ag ymholi am
wybodaeth rwyf yn cofio tua Hydref
'39 neu '40 yn Ysgol Ganol Llanrug a
ninnau ar ein blwyddyn olaf yn
nosbarth Miss Parry, Penisarwaun fel
ei gelwir. Ernest Roberts o
Penisarwaun sydd yn awr yn byw
rwyf yn credu yn Llanberis yn dod a'r
penillion i'r ysgol wedi eu cael o
Ffrainc gan ei frawd Llew; nid wyf yn
gwybod ond yn deall ar y pryd mai ef
a'i gwnaeth.

Gobeithuo fod hyn yn help i
ddatrys y dirgelwch.

Yr eiddoch,

Walter Jones (Parc gynt)

**Cefnogwch ein
Hysbysebwy**

COFIO TEULU'R BUSH

Annwyl Olygydd,

Diddorol iawn oedd darllen "Cofio
Teulu'r Bush" gan Cledwyn Williams,
Llanrug yn rhifyn 135 o Eco'r Wyddfa,
gan fy mod yn enedigol o'r Felinheli
ac wedi fy nwyn i fyny yn y pentref
cofiad yn dda deulu'r Bush yn
nechrau y dauddegau; Owen Jones
ai briod oedd yn ffermio Y Bush y
pryd hynny ac roedd dwy ferch
iddyt Katie a Bessie ac yn gwneud y
teulu'n gyfan roedd brodyr Owen
Jones sef John a David a chwaer o'r
enw Lizzie.

Bu i David Jones ddod yn bennaeth
cwmni llongau 'Elder Dempster' yn
Lerpwl a chafodd llawer o'r Felin,
minnau yn eu mysg, waith gyda'r
Cwmni trwy gymwynasgarwch a
charedigrwydd David Jones, ac fel y
gellid meddwl roedd yn fawr iawn ei
barch yn y pentref ac ar dafod llafar.
Fe adnabyddid llongau Elder
Dempster fel 'Llongau David Jones
Bush' o edmygedd i'r gwron o'r Bush
a wnaeth ei enw, yn fwyaf arbennig
yn Lerpwl.

Yr eiddoch yn gywir,

Elfed Williams

Gredington St.,

Lerpwl 8.

CYNLLUNIAU CYFNOD-RANNU "BRYN AFON"

Annwyl Olygydd,

Cynllun Cyfnod Rannu, Bryn Afon,
Llanrug

Rydym ar ddeall, trwy lythyr gan y
Swyddfa Gymreig, y bydd yr Apêl
hwn bellach yn cael ei glywed ar ffurf
Ymchwiliad Cyhoeddus lleol, yn
hytrach nag ar ffurf ysgrifenedig fel a
gyhoeddwyd yn wreiddiol. Rydym yn
croesawu'r newydd hwn oherwydd
nid oeddem yn teimlo y byddai Apêl
ysgrifenedig yn rhoi cyfle teg i bobl
leol leisio eu barn ar y cynllun.
Gallwn ond gobeithio y bydd
Arolygydd y Swyddfa Gymreig yn
gwrando yn ofalus ar y farn leol ac yn
gwrthod y cais ar sail y
gwrthwynebiad lleol.

Yn y cyfnod cyn y cynhelir yr
Ymchwiliad galwn ar y Cyngor
Cymuned i bwysu ar Gyngor
Bwrdeistref Arfon i sicrhau mai yn y
pentref ei hun y gwrandewir yr Apêl.
Galwn ar Gyngor Arfon ar y cyd
gyda'r Cyngor Cymuned i drefnu
Cyfarfod Cyhoeddus yn Llanrug er
mwyn egluro cynnwys a
goblygiadau'r cynllun hwn a rhoi
cyfle i bentrefwyr a chynghorwyr a
mudiadau leisio eu barn.

Yn gywir,

Selwyn Jones

Cell Llanddeiniolen

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.

DARLITHWYR DWY-IEITHOG

Annwyl Olygydd,

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf
cafwyd problemau cynyddol yng
Ngholegau Addysg Bellach y Sir i
ddenu pobl ddwyieithog i ymgymryd
â gwaith darlithio rhan-amser a
hynny mewn amryw o bynciau.

Rhagwelir y bydd hyd yn oed
mwy o angen am bobl o'r fath yn y
dyfodol. Hoffem felly dynnu sylw
eich darllenwyr at y sefyllfa hon ac
annog y rhai sydd â diddordeb i
gysylltu â ni fel bod gennym nifer
digonol o bobl y gellir galw arnynt yn
ôl y gofyn. Er nad oes unrhyw
sicrwydd o waith pendant y bwriad
yw sefydlu cronfa o bobl ar gyfer
Medi 1988 yng Ngholeg Technegol
Gwynedd, ac ar gyfer y dyfodol agos
yn y ddau goleg arall.

Er bod gofyn am gryn
arebnigrwydd yn y maes, nid oes raid
wrth brofiad dysgu o angenhraid.
Fodd bynnag, anogir y rhai hynny
nad oes ganddynt gymwysterau
dysgu ar hyn o bryd fynychu cwrs i'r
perwyl hwnnw.

Edrychwn ymlaen yn fawr felly at
dderbyn llythyr o gyflwyniad (gan
gyfeirio ynddo at y maes—meysydd
arbenigol) a C.V. gan y bobl hynny
sy'n awyddus i gael eu cynnwys ar
ein rhestrau wrth gefn.

Yr eiddoch yn gywir,

R Irvon Roberts

Pennaeth

Coleg Technegol Gwynedd
Bangor.

Dr H Edwards,
Pennaeth
Coleg Pencraig
Llangefni

J Keith Jones
Pennaeth
Coleg Meirionnydd
Dolgellau

GOFAL AM HEN DRYSOR

Annwyl ddarllenwyr,

Mae Radio Cymru yn chwilio am
bobl i gyfrannu i gyfres newydd sy'n
ymwneud â phob agwedd o gasglu a
gofalu am hen drysorau, o jwg nain i
ddresar Anti Nell!

Os oes gennych chi gasgliad,
gwybodaeth neu hanes diddorol, a
wnewch chi gysylltu ag

'Ambell Drysor',

Ystafell 3012

BBC

Llandaf

Caerdydd

CF5 2YQ

Os ydych o fewn cyrraedd ffôn,
naill ai gartref neu yn y gwaith,
nodwch y rhif ar eich llythyr.

Yn gywir iawn,

John Jenkins,

Swyddog y Wasg a Chysylltiadau
Cyhoeddus, Cymru.

CABS LLANRUG



C'FON 5951

**Prisiau cystadleuol.
Gwaith contract
pell ac agos**

HELFA DRYSOR

Annwyl Darllenwyr,

Yn ystod y misoedd nesaf bydd Radio Cymru'n recordio cyfres o "Helfa Drysor" ym mhob cwrt o Gymru. Faint wyddoch chi am fannau diddorol ein gwlad, am hanesion a thraddodiadau gwahanol ardaloedd?

A hoffech chi fynd ar helfa drysor a darganfod mwy? Dilyn troed Gerallt Gymro efalalai; teithio ar y trên bach, neu pwy a wŷr, cyrraedd eich cyrchfan a'ch cliw nesa' mewn cwch o bosib. Gallaf eich sicrhau y bydd digon o hwyl i'w gael wrth ddilyn y trywydd o fan i fan, a gwobr arbennig iawn os llwyddwch i ddatrys y ciliwiau i gyd, a chyrraedd pen y siwrnai.

Rydym yn chwilio am bobl fywiog a brwdfrydig i gystadlu yn y gyfres. Beth amdani felly? A hoffech chi gystadlu?

Ysgrifennwch ata i — Ceri Wyn Richards, Ystafell 3011, Radio Cymru, Llandaf, Caerdydd, CF5 2YQ, yn ddioed.

Diolch am eich cydweithrediad.

Yn gywir,

Ceri Wyn Richards,
Cynhyrchydd 'Helfa Drysor'.

Cyfres deledu newydd ar S4C gan Ffilmiau Rebeca yw Tudalen 88. Golwg ffres a chyfoes ar y byd a'r betws drwy lygaid ein hawduron a llawer o bobl eraill — ifanc a hŷn yn y byd cyhoeddi heddiw.

Bydd Tîm Tudalen 88 yn rhoi gwasanaeth cyson i'r gwylwyr. A hoffech wybod sut i fynd ati i gyhoeddi eich gwaith, neu gael amser (a thâl) i ysgrifennu? A oes gennych awydd arlunio neu ddylunio llyfr neu boster, neu wybod sut i osod tudalen o bapur bro yn ddeniadol?

Am yr atebion — a chynghorion eraill gan arbenigwyr throwch at Tudalen 88 bob nos Lun am 7.30 o'r gloch.

Cystadleuaeth

Yn ystod y gyfres bydd cystadleuaeth ddiddorol iawn ymhob rhaglen. Ond fe glywn ragor am hynny eto. Yn y cyfamser, fel tamaid i aros pryd — dyma un gystadleuaeth arall, sy'n agored i bawb o'r darllenwyr.

2 wobwr Crys Chwys anhygoel Tudalen 88


Cystadleuaeth 1 Darn o wyneb pa awduron (dynion) sydd yn llun A?

Cystadleuaeth 2 Darn o wyneb pa awduron (merched) sydd yn llun B?

Enwch gymaint ag a allwch. Atebion erbyn 15 Mehefin at:

Tudalen 88, Ffilmiau Rebeca, Blwch Post 45, Aberystwyth, Dyfed, 2Y23 11 N.

CYSTADLEUAETH "TUDALEN 88"



LLUN A



LLUN B

CYFEILLION 'HWYL A FFLAG'

Annwyl Olygydd,

Gyda'r newyddion calonogol bod y cwmni i dderbyn cymorthdal am dair blynedd arall gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer datblygu ein cynlluniau i gyflwyno dramâu newydd a hybu ysgrifennu newydd ym maes y theatr, mae'n fwrriad gennym i sefydlu Cymdeithas Cyfeillion Hwyl a Fflag.

Pwrpas y fenter fydd i ddenu cefnogwyr newydd i'r cwmni (yn arbennig mewn ardaloedd lle nad oes gennym gefnogwyr selog) yn ogystal â chreu perthynas glos â'n cefnogwyr presennol, er mwyn sefydlu Cymdeithas o gefnogwyr fydd yn creu rhwydwaith ledled Cymru.

Mi fydd aelodau o'r gymdeithas yn elwa mewn sawl ffordd:

Aelodaeth yn rhad ac am ddim; gostyngiadau ar brisiau tocynnau; cyfle i gyfarfod ag aelodau'r cwmni; gwybodaeth cyson am weithgareddau'r cwmni; rhestr bostio yn rhad ac am ddim.

Bydd cyfle hefyd i aelodau i fynegi barn ynglŷn â chynhyrchiadau a gweithgareddau'r cwmni ag i gymryd rôl ymarferol yn y broses o benderfynu ar ein cynlluniau yn y dyfodol.

Felly os ydych eisiau bod yn rhan o un o gwmnïau drama mwyaf blaengar a mentrus Cymru a chynrychioli'r cwmni yn eich ardal, ymunwch â Chyfeillion Hwyl a Fflag. Am fanylion pellach cysylltwch â Elwyn Williams, Hwyl a Fflag, Y

Tabernacl, Heol y Garth, Bangor, Gwynedd.

Yn gywir,
Elwyn Williams,
Swyddog Marchnata.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gostau cynhyrchu'r Eco.

£20.00 Mair ac Evan Davies, Tanygraig, Ceunant.

£13.50 Mrs Maureen Rhys.

£5.00 Mr a Mrs Bertie Lloyd Roberts, Llwyncoed Bach, Penllyn, Brynrefail

£5.00 Mr a Mrs Gwilym Hughes, Bryn Parc, Brynrefail

£3.00 Mrs Dilys Evans, 48 Maes Padarn, Llanberis

£3.00 Mrs Enid Jones, Delfryn Llanberis

£3.00 Sandra ac Elwyn, Llanberis.

£2.00 Mr a Mrs D.O. James, Rhos Vaenol, Deiniolen

£2.00 Griffith Jones, Pentre Helen, Deiniolen

£2.00 Mr a Mrs David Jones, Bron Myfyr, Dinorwig.

£1.00 Mrs C J Jones, 33 Hafod Oleu, Deiniolen.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

GOFAL A THRWSIO

Gofal a Thrwsio yw'r enw a roi'r ar gynllun i gynorthwyo hen bobl sydd yn berchen ar eu cartrefi i aros yno mewn cyfforddusrwydd a sicrwydd. Cyflawnir hyn trwy wrando ar hen bobl, cynnig cyngor call a threfnu gwaith adeiladu yn ôl y galw. Sefydlwyd cynllun o'r math yn Arfon o dan nawdd Cymdeithas Tai Eryri, Cyngor Bwrseiddref Arfon a'r Cyngor Sir eleni.

Fe wŷr y sawl a edrych o'i gwmpas bod cryn nifer o'r henoed sydd yn byw yn eu tai eu hunain yn y pentrefi yn arbennig, yn byw o dan amgylchadau llai na'r delfrydol. Yn aml mae'r tai sydd yn eiddo iddynt heb eu gwella (nac yn aml eu cynnal yn briodol) ers hanner canrif a rhagor. Nid oes rhyfedd felly i'r tai rheini fynd ar eu gwaith tros gyfnod morfaith yn wyneb gerwinder tywydd Arfon. Cofiwch bod tai yn Arfon yn gorfod dal mwy o law wedi'i yrru gan wyntoedd cryfion o'r de a'r de-orllewin nag ymron unman yn y Deyrnas Unedig.

Gan mai dirywio yn raddol mae tai hyd rhyw bwynt arbennig, gall y sawl sydd yn byw ynddynt addasu i'w amgylchfyd wrth i hwnnw waethgu. Ond fe ddaw adeg pan fydd yr amgylchadau gwael yn mynd yn fwrn wrth i rhywun heneiddio. Digwydd hyn ar adeg pan mae gwynebu'r dasg o ddethol o blith adeiladwyr o safon amrywiol a threfnu'r gwaith angenrheidiol yn peri pryder cynyddol. Y canlyniad yn aml yw i'r sawl sydd wedi byw mewn pentref ar hyd ei oes benderfynu ildio'r fargen a symud i gartref preswyl i'r henoed a hynny'n ddi-anghenraid. Heneiddio'n gynt yw canlyniad colli nabod ar gymdogion yn aml.

Gall Gofal a Thrwsio arfon helpu'r sawl sydd yn dynesu at oed ymdeol, neu'n anabl, wrth sicrhau grant lle bo hynny'n briodol, trefnu morgais neu fenthyciad, canfod adeiladwr, gweithiwr addas ar gyfer y gwaith, goruchwyllo'r gwaith a threfnu lle i bobl aros oddi cartref dros dro os oes rhaid.

Gellir ceisio cymorth trwy gysylltu â John Arwyn, Gofal a Thrwsio Arfon, Gorphwysfa, Heol y Bedyddwyr, Penygroes. (Ffôn Penygroes 881576 neu 881588). Nid oes tâl am wasanaeth Gofal a Thrwsio Arfon.

Gwasanaeth NEWYDD
ar garreg eich drws

SEGONTIUM
CAR · VAN HIRE

Cerbydau Pickup, Luton, Cargo a Bysus Mini
Hefyd Gwasanaeth Glanhau Ceir
UNED 5, STAD CIBYN
CAERNARFON Ffôn: 2013

Cronfa Goffa
R.H. Owen

Rhoddir grantiau o'r Gronfa uchod tuag ar lawer o weithgareddau.

Gellir cael copi o'r amodau a ffurflen gais oddi wrth

Aled Owen

13 Charlotte St.,

Llanberis. Ffôn 871518

Ceisiadau i law erbyn Awst 31, 1988

CWM-Y-GLO

Gohebyd: Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)

CLWB POBOL Y CWM: Yng nghyfarfod dydd Iau Ebrill 21, rhoddodd y Llywydd Mr Llew Hughes sgwrs ar ddatblygiad masnach sebon Lever Bros ym Mhorth Sunlight. Fel prentis i'w dad mewn busnes cyfanwerthwyr bwyd cafodd Williams Hesketh Lever freuddwyd i greu Sebon mwy addas na'i gyflwr annerbyniol ganol y ganrif ddiwethaf. Cafodd syniad i blygu tabledi sebon yn unigol mewn papurau lliwgar a deniadol a daeth Sebon 'Sunlight' yn llwyddiant syfrdanol yn araf ychwanegodd bersawr i'w wneud yn fwy derbyniol i ymolchi. Wedi adeiladu ei ffatri enfawr a chyflogi cannoedd o weithwyr roedd yn awyddus i roi manteision goreu posib iddynt, ac adeiladodd gartrefi dymunol idynt a elwid yn Port-Sunlight.

Roedd y te yng ngofal Mrs G Pritchard, Bryn Gwynedd a Mrs E Jones, Seiont House, a rhoddwyd y raffl gan Mrs R Rowlands, Talafon a enillwyd gan Mrs K Watkins.

Cyfarfu yr aelodau dydd Iau, Mai 5 a chroesawodd y Llywydd y wraig wadd sef Mrs M Vaughan Jones, Waunfawr. Traddododd Mrs Jones sgwrs ddiddorol ar ymfudiad y Cymry cyntaf i Batagonia yn 1865 ar y llong Mimosa o Lerpwl a glanio ym Mhorth Madryn ar ôl dau fis ar y môr. Nid oedd cyfnod sefydlu heb ei anawsterau ond trwy lafur caled a dyfalbarhad llwyddwyd i ymgartrefu mewn rhan o wlad hollol estronol. Trwy gyfrwng sleidiau cawsom weld amryw o adeiladau a golygfeydd pan oedd ar ei hymweliad â'r Wladfa. Diolchwyd iddi gan Mr R H Parry. Rhoddwyd y te gan Mrs Watkins a Mrs G Chick a'r raffl gan Miss E Hughes, Tan y graig a enillwyd gan Mrs J Parry, Bro Rhythallt. Cyfeiriodd y Llywydd at Waeledd Mr Hugh Pritchard a Mr Russell Rowlands gan hyderu y cânt wellhad buan.

CYMANFA'R ANNIBWYNWYR: Cynhaliwyd Cymanfa Dosbarth Cwm-y-glo yng Nghapel Jerusalem, Llanberis ddydd Sul Ebrill 24. Yng nghyfarfod y plant yn y prynhawn cymerwyd rhan agoriadol gan blant Eglwys Nant Padarn. Yr arweinyddion oedd Mr Cynrig Hughes (Prifathro Ysol Dolbadarn) a Mrs Ann Evans, Penisarwaen. Cymerwyd rhan gan blant eglwys Ebeneser, Bosra, Jerusalem a Nant Padarn, a gwnaeth y plant waith canmoladwy iawn. Diolch iddynt ac i'w hathrawon am eu hyffroddi. Rhoddwyd y fendith ar derfyn y gwasanaeth gan y Parch. Gwynfor Williams.

Yng nghyfarfod yr hwyr cymerwyd

y rhan agoriadol gan y Parch Gwynfor Williams. Cymerwyd rhan gan Barti Clychau'r Grug dan arweiniad Mrs Glenys Griffiths, a Miss Lowri Prys Roberts wrth yr organ. Cafwyd datganiad ar lafar ac ar gân o fywyd a gwaith yr Esgob William Morgan.

Cyflwynodd y Parch Gwynfor Williams Feibl Cymraeg Newydd i Mr William Robert, cyn ysgrifennydd y Gymanfa fel gwerthfawrogiad am ei waith diflino ar hyd y blynyddoedd.

Arweinydd yr hwyr oedd Mr John Jones, Deiniolen, a'r organyddion Mr Robert Lloyd a Mrs Hefina Ellis.

Diolchwyd i bawb gan y Parch Gwynfor Williams am eu gwaith a barodd i lwyddiant y Gymanfa.

GWELLHAD BUAN: Dymunwn wellhad buan i Mr Hugh Pritchard, Bryn Gwynedd, a Mr Russell Rowlands, Talafon ar ôl triniaeth yn yr ysbyty hefyd i Mrs Rose Fowler, Bodlondeb ar oî damwain yn ei chartref.

DIOLCH: Dymuna Sioned a Tony diolch yn fawr iawn i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genediaeth llion.

YR YSGOL FEITHRIN: Ddiwedd tymor y Gwnawyn gorffennodd Anti Carol ei gwaith fel athrawes. Diolch yn fawr iawn iddi. Yr athrawes newydd yw Anti Lou, a dechreuodd hi ar ôl y Pasg ac mae'r plant yn mwynhau eu hunain yn fawr iawn yn ei chwmni. Diolch hefyd i Medi a Veronica a fu'n helpu yn yr ysgol, y ddwy wirfoddolwraig newydd yw Linda a Christine. Os oes rhywun â dau brynhawn sbâr yr wythnos buasem yn falch o'ch cymorth ar y rota. Cysylltwch ag unrhyw aelod o'r pwyllgor.

Byddwn yn cynnal sioe Ffasiynau yn yr Ysgol nos Fercher Mehefin 15fed am 8 o'r gloch. Pris mynediad £1 yn cynnwys paned a rhif lwcus ar y tocyn yn cael gwobr. Plant i dalu 50c wrth y drws. Mae'r tocynnau i'w cael gan aelodau Pwyllgor yr Ysgol Feithrin neu gallwch ffonio Sioned Jones, Llanberis 872085 neu Avril Jones, Llanberis 872256

ADRAN YR URDD Pen y Llyn: Llongyfarchion i holl aelodau'r Adran ar eu hymdrechion yn Eisteddfodau'r Urdd eleni. Llongyfarchiadau hefyd i'r tîm pêldroed pump bob ochr dan 11eg oed a gafodd lwyddiant mawr yng nghystadleuaeth Adrannau Pentref Rhanbarth Eryri. Llwyddodd y bechgyn i gyrraedd y brig ymysg timau adrannau pentref ond colli fu eu hanes yn erbyn enillwyr cynghrair yr adrannau ysgol. Da iawn chi hogia.

Bydd yr adran yn parhau â'u

PENCAMPWYR SIR ERYRI



gweithgareddau tan y Sulgwyn. Daeth Iwan Williams o Lanberis i gynnal chwaraeon yn yr adran yn ddiweddar. Cafwyd gyrfa chwilod un noson ac aeth pawb i'r Ganolfan Hamdden ar noson arall. Daeth Duncan Brown atom i ddadansoddi pellenni tylluanod yn ddiweddar a chafwyd blas arbennig ar adnabod y rhywogaethau o anifeiliaid oedd yn ddigon anffodus i fod yn fwyd i'r dylluan! Aeth tîm i Ysgol Syr Hugh Owen i gynrychioli'r adran yn mabolgampau cylch yr Urdd. Cawn ddisgo cyn y Sulgwyn i orffen gweithgareddau'r tymor. Aeth dau ar bymtheg o blant i Lanlllyn, ac eisoes trefnwyd i dreulio bwrw Sul yng Nghanolfan Rhyd-ddu.

YR YSGOL GYMUNED: YMWELD: Aeth nifer o'r plant i lawr i Lyfrgell y sir yng Nghaernarfon lle treuliwyd prynhawn diddorol yng nghwmni Hywel James, Y Llyfrgellydd Plant yn dygsu sut mae Llyfrgell yn gweithio.



Ar yr un trywydd, bu'r plant yn Argraffdy'r Cyngor sir, a chafwyd amser difyr yng nghwmni Ieuan Owen. Dangosodd inni sut yr argreffir llyfrau i'r Cyngor a'r technegau cymhleth sydd yn rhan o'r gwaith y dyddiau hyn.

DIOLCH: Hoffai'r Ysgol ddiolch i Mr Llewelyn Hughes a Mr Richard Roberts am fod mor barod i ddod i'r ysgol i'n cynorthwyo'n ddiweddar.

FAN SBONDONICS: Bu fan Sbondonics heibio'r ysgol am fore a chafodd y plant i gyd lawer o hwyl yn pori drwy'r dewis helaeth o lyfrau diweddar sydd yn cael eu harddangos.

PLANNU COED: Bu plant yr ysgol wrthi'n ddiwyd yn plannu coed yn y pentref y gwanwyn hwn. Llwyddwyd i blannu oddeutu hanner cant yn y parc bychan ymhen pellaf y pentref a thua deg ar y llain bychan rhwng yr ysgol a'r lôn. Cafwyd y coed, a llawer o gymorth, gan wirfoddolwyr Gwarchodwyr Cefn Gwlad. Yn anffodus maluriwyd tua dwys o'r coed o fewn ychydig ddyddiau gan fandaliaid, ond ar 7ol hynny, mae nhw wedi cael llonydd i dyfu. Gobeithio'n wir y cânt barch a llonydd o hyn ymlaen.

CYMDETIHAS RHINI AC ATHRAWON: Trefnir gwibdaith wedi'r ysgol un noson y tymor hwn. Byddwn yn mynd i'r Pili Palas ym Mhorthaethwy. Daw mwy o fanylion maes o law.

Mae ymgyrch fechan ar droed i godi rhyw ychydig o arian i gronfa'r Ysgol; ddydd Sadwrn 11fed o Fehefin ar iard yr ysgol bydd Sêl Cist Car yn cychwyn am ddeg ac yn parhau tan un y prynhawn. Am £3

HOME IMPROVEMENT CENTRE

FFORDD YR ORSAF, LLANRUG

Ffôn: C'fon 2212

ar gyfer...

Paent, Papur wal,
Anghenion addurno,
Coed, Tywod, Gro,
Brics, Blociau,
a Sment,
Offer plymio

Anghenion Tŷ,
Garddio,
Hadau Unwin,
Hardware, nwyddau
Ironmonger
Teganau

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

cewch ddod a'ch car i mewn i'r iard a gwerthu unrhyw beth a fynnoch. Dyma gyfle ardderchog i droi pethau sydd o ddim iws i chi bellach yn arian parod! Mae croeso mawr i unrhyw un ddod a'i gar, o Gwm-y-Glo ac o'r tu allan. Bydd paned ar gael i'r prynwyr ac i'r gwerthwyr. Dewch yn llw.

PLISMON YN GALW: Daeth yr Heddwas Ceris Williams i'r ysgol i siarad â'r plant ynglŷn â'i waith a'i yrfa. Daeth a'r moto beic hefo fo a chafodd y plant lawer o hwyl yn gweld yr holl drugareddau sydd arno.

GWEITHGAREDDAU PLANT CWM



Ceris Williams yn dangos beic yr Heddlu yn Ysgol Cwm-y-Glo.



Plant Ysgol Cwm-y-Glo yn argraffdy'r sir gyda leuan Owen.



Y plant yn plannu coed yn y parc

TYMOR LLWYDDIANNUS I'R TÎM DAN 16



Mae'r tîm wedi cael tymor da eleni, maent yn drydydd yn y gynghrair ac yn y rownd derfynol o gwpan y gynghrair am yr ail flwyddyn yn olynol. Dyma lun yr hogia yn eu crysau newydd, Pob lwc iddynt yn y ffeinal.

LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

Y Beibl Cymraeg Newydd
Cymdeithas y Beibl.
Nifer o argraffiadau: £6.50 - £26.95.
Cyfieithiad hollol newydd o'r Beibl i Gymraeg cyfoes.

Culhwch ac Olwen
Addas. Gwyn Thomas.
Gwasg Prifysgol Cymru ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru, £6.95.
Cyfaddasiad newydd o chwedl Culhwch ac Olwen, gyda lluniau lliw a du a gwyn gan Margaret Jones.

Cysgodion Cors Mallerch
Elgan Philip Davies
Y Lolfa £2.45

Antur aml ddewis arall gan yr awdur.

Caneuon Islwyn Ffowc Elis
Y Lolfa, £4.50
Casgliad o ganeuon poblogaidd Islwyn Ffowc Elis wedi'u trefnu gan Robat Arwyn.

Y Wigwam Cyntaf
Eurgain Fowler
Gwasg Cambria, £2.75.
Casgliad o ugain o storïau'r 'Indiaid Cochion' ynghyd â lluniau, mapiau a gwybodaeth ffeithiol am y bobl eu hunain.

Teithio'r Gofod
Kenneth Garland. Addas Marged Dafydd
Elfen, £2.50
Llyfr i blant yn adrodd hanes Oes y Gofod o amser y Roked V2 hyd heddiw ac i'r dyfodol.

Pasg Cyntaf Smot
Eric Hill. Addas Dilwen M Evans
Gwasg Gomer, £3.95
Llyfr codi'r llabed, llawn lliw, am y ci bach annwyl, Smot (Cyfres Smot).

Mae'n Fy N...Nychryn I0
Shirley Hughes, Addas Ieuan Griffith
Cymdeithas Llyfrau Ceredigion Cyf.
Nofel antur i blant.

Nid yw Nef ond mynd yn ôl hyd y Mannau Dymunol
Moses J Jones
Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd, 80c.
Darlith flynyddol Llyfrgell Blaenau Ffestiniog, 1988, lle sonia Moses J Jones am ei flynyddoedd cynnar ym Mlaenau Ffestiniog.

Cyfres Be' Ddywedodd...?
Gol. R Brinley Jones
1. Karl Marx, Cyf. 1 WJ Rees;
2. Karl Marx, Cyf. 11 WJ Rees;
3. Durkheim, Ellis Roberts a Paul Birt;
4. Weber, Ellis Roberts a Robat Powel;
5. Buarth, Pennar Davies;
6. Bultman, Eryl Davies;
7. Meyerhold, W Gareth Jones a Mona Morris;
8. Brecht, WR Lewis ac Oliver Davies;
9. Gerallt Gymro am ei Gyfoeswyr.
Huw Pryce a Glenda Carr.
Y Colegiwm Cymraeg, £2.00 yr un.
Cyfres o gyfieithiadau newydd sy'n cyflwyno agweddau canolog ar feddwl awduron a astudir gan fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg yn y chweched dosbarth neu yn y Brifysgol.

Eben Fardd
E G Millward
Ieuan Fard
Gerald Morgan
Gwasg Pantycelyn, £2.50
Y ddwy gyfrol ddiweddaraf mewn cyfres o lyfrau sy'n astudio bywyd a gwaith rhai o briflenorion ein cenedl. (Cyfres Llên y Llenor)

Ysgrifau Beirniadol IXV
gol. J E Caerwyn Williams
Gwasg Gee, £8.00
Y gyfrol ddiweddaraf mewn cyfres o astudiaethau llenyddol.

PRINT BRAS
Yr Onnen Unig
Nofel gan Gwilym Meredydd Jones.

**SÊL CIST CAR
IARD YSGOL
GYMUNED
CWM-Y-GLO
Sadwrn 11eg
Mehefin
10 tan 1.00
£3 y car**

**Elw i Gronfa'r Ysgol
Croeso i bawb
Dim masnachwyr**

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen, Caernarfon.

APÊL EISTEDDFOD YR URDD
DYFFRYN NANTLLE 1990: Cynhelir
Stondin Gacennau ar y Maes ddydd
Sadwrn, 11 Mehefin. Gofynnir i
bentrefwyr gyfrannau cacennau a
theisennau ar gyfer apêl y cylch.
Dylech naill ai eu cymryd i'r stondin
ar y Maes ger Banc y Midland cyn 10 y
bore neu eu cymryd i aelwyd aelod
o'r pwyllgor ar nos Wener neu yn
gynnar fore Sadwrn.

CYNGOR CYMUNED: Cynhaliwyd
cyfarfod o Gyngor Cymuned
Waunfawr yn y Ffestri nos Fawrth 17
Mai. Etholwyd Clive James, Hafan fel
Cadeirydd am y flwyddyn 1988-89.
Yn y cofnodion o'r Cyngor
gynhaliwyd mis Ebrill gwelwyd fod y
Cyngor wedi penderfynu derbyn pris
o £230 yr un gan y Cyngor Sir am
osod dwy lamp ychwanegol ger
Penrhos, y Cyngor cymuned i dalu
hanner y gost. Gan fod y safle wedi
derbyn caniatâd amlinellol yn barod
penderfynwyd o blaid y cais
cynllunio i godi saith byngalo rhwng
Erw Wen a Glandwr. Derbyniwyd
llythyr oddi wrth Mr Glyn Evans,
Llwyn Alice, ynglŷn â'r bwriad i gadw
cŵn hela yn yr hen stabl gyferbyn ei
eiddo. Penderfynwyd ysgrifennu i
Gyngor Bwrdeistref Arfon i gefnogi'r
gwrthwynebiad lleol i'r cynllun
arfaethedig.

GWASANAETHAU'R CAPEL:
Pregethir gan y canlynol yng
Nghapel y Pentref am 2 y prynhawn
yn ystod mis Mehefin - 5ed Parch
Trefor Lewis, 12fed Parch Trefor
Jones, 19eg Mr Albert Jones, 26ain
Mr Glyn T Jones. Croeso i bawb.

HANES LLEOL: Cynhaliwyd noson
lwyddiannus dros ben yn y festri o
dan nawdd Cymdeithas Hanes Bro
Eco'r Wyddfa. Trafodwyd hanes y
pentref a'r cylch. Clywsom sgwrs
gan Julie Latham, Gwern Gof Isaf am
hanes yr ysgol a Phlas Glangwna

gyda chyfraniadau o'r llawr oddi wrth
Mr Robert Williams, Llanrug ac Elen
Jones, Waunfawr (Nel Bach lôn Glai).
Wedyn trafodwyd ar hanes mynd a
dod yn yr ardal dros y canrifoedd gan
Clive James, Hafan. Roedd
arddagnosfa o hen luniau, mapiau a
dogfennau'r Capel ar gael i'w gweld.
Dros banded roedd cyfle i bawb hel
atgofion. Trenfir i gopio'r lluniau a
fenthycwyd gan y trefnwyr a'u
dychwelyd i'r perchnogion yn
ddiogel cyn bo hir. Pe bai hen luniau
eraill ar gael mae Deiniol Huws yn
awyddus i'w benthycu er mwyn
trefnu gwneud copiau ar gyfer llyfr
arfathedig Cyngor Gwlad Gwynedd.

HYSBYSFWRDD Y PENTREF: Pe bai
rhywun efo syniad am leoliad ar
gyfer hysbysfwrdd i'r pentref (mae
Cyngor Cymuned Waunfawr yn
fodlon talu amdano), dylent gysylltu
â lfor Hughes neu Clive James er
mwyn trafod y safle gyda'r
tirfeddiannwr.

GER-Y-TÂN: Cynhaliwyd y cyfarfod
diwethaf yn "Delfryn" pryd y cafwyd
noson o adloniant gan Ceri Roberts,
10 Erw Wen. Bu'n llwyddiannus ar yr
unawd Alawr Werin dan 12 oed yn
Eisteddfod yr Urdd, ac felly bydd yn
mynd yn ei blaen i'r Genedlaethol
ddiwedd y mis. Rydym i gyd fel
pentrefwyr yn dymuno'r gorau iddi.

ER COF: am fam annwyl ar
benblwydd cyntaf ei marwolaeth, sef
Mrs Olwen Jones, 3 Bryn Gof. Mewn
hiraeth dwys, Eluned, Rhiannon,
Glenys ac Aled.

NANT PERIS

Gohebydd: Mrs Mary Ff. Roberts,
Cerrigydrudion, 871327.

LLONGYFARCHIADAU i Helen Mai ar
ddathlu ei phenblwydd yn 18 oed ar
Fai 16eg ac i Dafydd Pritchard ei
brawd a oedd yn 21 ar 22ain o Fai.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Ann
Griffiths a'r teulu, 6 Rhes Glanrafon
ar golli ei thad yn ddiweddar.

RASUS CŴN: Bydd Rasus Cŵn Nant
Peris a'r Cylch yn cael eu cynnal yng
nghae Tŷ Coch ar y 27-28 Mai.

CASGLWYD y swm o £19.72 tuag at y
"Cheshire Homes" a hoffai Mrs
Shirley Davies ddolch i bawb am eu
rhoddion at yr achos.

DYMUNWN Ben blwydd hapus i Mrs
Elizabeth Closs Roberts, Tan y Bryn
ar Fehefin 8fed.

Gobeithio i Mrs Ann Jones,
'Glendale' gael pen blwydd hapus yn
ystod Mis Mai roedd hi yn dathlu ei '7'
phenblwydd.

CLWB FFERMWYR IEUAINC CAERNARFON



Cynhaliwyd cystadleuaeth Pŵl a
Dartiau Eryri yng Nghlwb Rygbi
Caernarfon, nos ffercher, Ebrill
29fed. Daeth y tîm Pŵl sef Helen ac
Andrew Jones yn gydradd drydydd.
Rachel Griffiths ac Aled Jones fy'n
chwarae dartiau ar ran y Clwb.
Dydd Sadwrn, Ebrill 23ain
cynhaliwyd Gweithgareddau Maes
Cymru yng Ngholeg Glynllifon. Bu
Ellen, Gwen a Myfanwy yn brysur
drwy'r dydd yn paratoi bwyd ar
gyfer y cystadleuwyr, beirniaid a
stiwardiaid. Cafwyd cryn hwyl yn
cyfarfod â aelodau siroedd eraill.
Dangoswyd peth o'r
gweithgareddau ar Raglen Ffermio
nos Iau 12fed o Fai. Nos Fawrth,
Ebrill 26ain Nia Jones, Clwb y
Rhiw, sy'n gweithio gyda Dr
Barnardo's fu'n ymweld â'r Clwb.
Dangosodd ffilm ar waith Dr
Barnardo's ym Mhrydain.
Diolchwyd iddi gan Rhian Thomas.
Yn ystod y noson recordiwyd rhan o
Raglen Llywelyn Fach a
ddarlledwyd ddydd Gwener Mai
13eg.

Sgwrs gan Cwnstabl Ceris
Williams, o'r Heddlu, ar alcohol a
chyffuriau oedd yn y Clwb nos
Fawrth Mai 3ydd. Mwynhaodd yr
aelodau'r noson. Yr un noson
cynhaliwyd noson Barnu Gwartheg
Duon Eryri ar Fferm Crugeran,
Sarn. Aled Jones, Eurwyn Jones a
Rhian Jones fu'n cynrychioli'r clwb
a chawsant gryn hwyl ar y
gystadleuaeth. Nos Iau, Mai 5ed
aeth Nicola Griffiths, Rachel
Griffiths, Rhian Thomas ac Eurwyn
Jones i Fferm Pant Eithinog
Penygroes i gystaldu yng
nghystadleuaeth Barnu Gwartheg

Cigyddion Eryri. Daeth Nicola yn
ail i rai dan 16oed ac Eurwyn yn
bedwerydd i rai dan 26 oed.

Paratoi ar gyfer y Rali oedd yn y
Clwb Nos Fawrth Mai 10fed, ac ar
grwydr yr oedd Eurwyn Jones,
Helen Jones a Nia Jones unwaith
eto. Cystadleuaeth Barnu
Gwartheg Godro Eryri yn Coed
Cae Gwyn, Llangybi. Daeth Nia yn
ail i rai dan 16 oed a Eurwyn yn
bedwerydd i rai dan 26 oed.

Dydd Sadwrn Mai 7fed criw
heini'r clwb fu yng Nghaernarfon yn
cystadlu yn Chwaraeon Eryri. Bu'r
bechgyn yn chwarae pêldroed.
Enillasant y gêm gyntaf yn erbyn
Clwb Penmachno o bedair gôl i un.
Dyffryn Nantlle oedd eu
gwrthwynebwyr yn y rownd
ganlynol ond colli fu eu hanes o
ddwy gôl i un. Bu'r genethod yn
cymryd rhan mewn tair
cystadleuaeth sef pêlwrwyd, hoci a
phêldroed. Daethant yn gydradd
drydydd yn yr hoci drwy chwarae yn
erbyn Dyffryn Madog gyntaf ac
ennill o 2 gôl i ddim ac yna colli yn
erbyn Lôn Goed. Ysbyty Ifan oedd
eu gwrthwynebwyr yn y Bêl rwyd ac
ar ôl gêm gyffrous Ysbyty a orfu o 4
i 2. Dyffryn Madog oedd eu
gwrthwynebwyr yn y pêldroed a
hwy a enillodd y tro hwn.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss M Humphreys, 4 Tai
Tan y Coed (Llanberis 870030)

LLONGYFARCHIADAU: i Amllyn
Llwyd Evans, Carwyn a chwech
disgybl arall o Ysgol Brynrefail ar
dderbyn gwobr Dug Caeredin (Duke
of Edinburgh Award). Gwobr Efydd

Cyflwynwyd y gwobrau gan
Capten Alex Robertson cyn
gadeirydd Cyngor Sir Gwynedd.

GWELLHAD BUAN: Croeso adre o
Ysbyty Gwynedd i Mrs Beryl Mai
Jones, 3 Tai Tan-y-Coed.
Dymuniadau da'r ardal am wellhad
llwyr a buan i Mrs Jones.

LLWYDDIANT: Gwobrwywyd Rheon
Parry, Iwan LI Pritchard, M. Sian

Pritchard, Kelly L Roberts, Beverley
Ann Roberts, Llion W Pritchard, Aled
Parry ac Anwen Parry yn y Gymanfa
yng Nghapel Llanrug Pnawn Sul Mai
1af.

Enillodd pob un y wobwr gyntaf.

LLONGYFARCHIADAU i Manon
Llwyd Evans, Carwyn, ar ei
llwyddiant yn ei arholiad piano gradd
8 gydag anrhydedd.

YN EISIAU

Pâr o esgidiau
cerdded: Maint 2
Ffôn: 870760



STRYD FAWR, DEINIOLLEN Ffôn
Llanberis 871210

Crefftau llechi: arlunwaith, clocioau, calendrau,
raciau llythyrau ac ati. Hefyd crefftau lleol eraill:
crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

Arddangosfa o hen luniau chwarel.

A dewis rhagorol o Fideos i'w benthyg
Hefyd yn Siop

FFYN A CHERRIG, STRYD FAWR, LLANBERIS

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W O Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

EISTEDDFOD YR URDD: Rhoddodd Aelodau o'r Urdd Ysgol Gwaun Gynfi gyfrif ardderchog ohynnt eu hunain yn Eisteddfod y Sir a gynhaliwyd ar y Sadwrn ola' o fis Mawrth. Llwyddodd y Gangen i gael yr hawl i gystadlu mewn pum cystadleuaeth yn y Brifwyl a gynhelir eleni yn y Drenewydd fis nesaf. Dymuniadau cywiraf am ragor o lwyddiant yno. Dyma ganlyniadau Eisteddfod y Sir Unawd dan 8 oed - Alaw Mari Hughes 2il; Unawd Pres dan 12 oed - Euros Williams 3ydd; Unawd 8-10 oed - Lyndsey Vaughan Parry 1af; Cerdd Dant 8-10 oed - Lyndsey Vaughan Parry 1af. Cerdd Dant 10-12 oed - Nia Land 1af; Parti Cerdd Dant dan 12oed Y.C. 1af. Parti Deulais dan 12 oed 1af. Côr Grŵp 3 - 2il.

CLWB ELIDIR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod p'nawn Mawrth Ebrill 26ain yng Nghaban y Ganolfan dan lywyddiaeth Mrs Miriam Lewis. Paratowyd cwis ar emynau gan Mrs Ellen Williams a chafwyd hwyl fawr gyda'r ddwy ochr yn gyfartal. Yn dilyn cafwyd te rhoddedig gan Mrs Nellie Williams, Mrs Betty Hughes a Mrs K E Davies, enillwyd y wobwr gan Mrs Katie Griffith. Cofiwyd am y cleifion a phasiwyd cydymdeimlad â Mrs J C Hughes ym marwolaeth ei modryb. Diolchwyd i bawb a gymerodd ran gan y llywydd.

Cafwyd cyfarfod ar b'nawn Mawrth Mai 10fed yn y Caban pryd y cafwyd sgwrs gan Mr Tom Jones, y nyrs gymunedol ar sut i ofalu am ein hunain yn y tywydd oer a'r cyfleusterau sydd i'w cael heddiw fydd yn fuddiol i gadwyn iach a heini.

Diolchwyd i Mr Jones, gan Mrs Eirlys Ll Jones a Mrs Megan P Morris. Rhoddwyd y te gan Mrs Mary Thomas, Mrs Katie Griffiths, Mrs E Coles a Mrs M Brown ac enillwyd y wobwr gan Miss Jean Moeller. Cofiwyd am y ddiweddar Kathleen Jones a fu mor weithgar a charedig tuag at y Clwb a dymunwyd yn dda i Mrs Nancy Rowlands sydd yn Ysbyty Gwynedd.

Dymuna aelodau a swyddogion Clwb Elidir ddiolch yn fawr i Mr Alun Wyn Evans a'r cyfeillion a gasglodd arian tuag at gyllid y clwb, er sicrhau cinio a thrip rhad i'r aelodau. Mae dyddiad y trip wedi ei newid i Fehefin 16eg. Diolchwyd am y te gan Mrs Sallie Lewis.

Y SEINDORF:

Enillwyr Clwb 200 y Seindorf am fis Mai: 1. £20 rhif 20 John Green, dan ofal Caradog; 2. £15 rhif 187 Neil Ross, 29 Ffordd Ysgubor Goch, Caernarfon; 3. £10, rhif 63 Mrs Hilda Saynor, Bangor.

MARWOALETH: Ar ôl cystudd blin bu farw Miss Kathleen J Jones, Pren-teg yn Ysbyty Eryri Caernarfon ar Ebrill 26ain. Roedd yn aelod ffyddlon o Eglwys Disgwyfya a bu'r angladd ar Ebrill 29, y gwasanaeth yn Eglwys Disgwyfya, ac yn dilyn yn Amlogsgfa Bangor.

Cymerwyd rhan gan y Parch Trefor Lewis ei gweinidog, Parch Stanley Williams, Parch Ifor L Williams a'r Parch Eifion W. Williams. Dymuna'r teulu ddiolch i'w chymdogion a'i llu chyfeillion am eu caredigrwydd mawr tuag ati.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Fai 3ydd o dan arweiniad Mrs J Eirlys Williams y Llywydd. Darllenodd Mrs Williams y llythyr misol a chroesawodd y wraig wadd sef Mrs Maud Williams Caernarfon y V.C.O. a chroesawodd Mrs Williams, Mrs Pat Jones Brynrefail. Cawsom noson ddiffr iawn gan Mrs Maud Williams yn siarad am yr A.G.M. sydd i'w gynnal yn Llundain ym Mis Mehefin. Diolchwyd i Mrs Williams gan Mrs J Eirlys Williams a Mrs Marion Williams. Rhoddwyd y te gan Mrs J Eirlys Williams a Mrs Beti Wyn Davies. Enillwyd y raffl gan Mrs Beti Williams.

Cydymdeimlwyd â theulu'r ddiweddar Miss Kathleen Jane Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fehefin 6ed pryd y disgwyllir Mrs M E Jones Cricieth.

MERCHED Y WAWR: Yn ein cyfarfod mis Ebrill croesawodd y Llywydd Mrs Miriam Lewis ein gwestai sef aelodau o'r Samariaid. Clywsom am ddechrau y mudiad 30 o flynyddoedd yn ôl gan offeiriad o'r enw Chad Fara. Mae angen yng Ngwynedd ers 4 blynedd ac mae 91 yn helpu, ac ar gyfartaledd mae 2,400 o alwadau y flwyddyn yn dod i'r Swyddfa yn 'Abbey Road' Bangor. Cawsom noson ddiddorol iawn ac eglurhad ar y gwaith y mae'r bobl ymroddgar yma yn ei wneud drwy helpu'r unig yn eu gwahanol amgylchiadau. Diolchwyd iddynt gan Mrs M Lewis a dwy o'r aelodau.

Yng nghyfarfod mis Mai cawsom noson wrth ein bodd gyda Mrs Gillian Jones, Tan y Gollen yn dangos i ni sut i goginio, roedd popeth yn edrych yn flasus iawn a phawb yn dyheu am gael y risetiau i roi cynnig arnynt. Diolchwyd am y noson gan Mrs Miriam Lewis ac ategwyd gan Mrs Megan Morris. Roedd un gorchwyl trist gennym sef cydymdeimlo â theulu y ddiweddar Miss Kathleen Jones, Pren teg a chyfeiriodd y Llywydd at ei gwaith a'i chymorth fel



Llun o St. Ioan (St. John's) a reu gwyliau ym Mhwlheli tua 1950. Y mae amryw o Ddeiniolen yn y llun, pwy yw y lleill tybed? Mae perchennog y llun yn eistedd yr ail o'r dde, yn yr ail res o'r blaen sef Mr Gruffydd Jones, Pentre Helen (Guto Bach Blaen Waen fel y'i gelwid)



Dyma lun o Gôr Meibion Mr Martin Owen, Llanberis. Pa flwyddyn tynnwyd y llun tybed? Faint ohonynt sydd yn fyw heddiw? Ai tybed mai Côr o rhyw bonc yn y chwarel oedd. Mr Martin Owen oedd yr arweinydd a Mr J Griffiths Caer Bythod oedd y cyfeilydd. Mae Mr Griffiths yn eistedd ar y pen yn y rhes flaen ac yn dal i fyw yng Nghaerdydd heddiw. Anfonwyd y llun gan Mr R.O. Williams, Arfon House, Deinolen.

aelod o'r gangen. Y gwesteion oedd Mrs Megan Morris a Mrs Medwen Griffith. Enillydd y 'raffl' oedd Miss Jean Moeller. Gofynnir am 50c y pen gan yr holl aelodau er mwyn pwrcau nwyddau ar y "Noson o Ddramâu" yn Ysgol Brynrefail, Llanrug Nos Wener Mai 27. Dymunwyd yn dda i blant Deiniolen yn eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Drenewydd.

DIOLCH: Dymuna Mrs Catherine Jane Jones, 33 Hafod Oleu, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, frindiau, cymdogion ac hefyd y Parch Ifor Lloyd Williams am bob arwydd o garedigrwydd a'r llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd ac Eryri yn ddiweddar.

Y WESLEAID: Bydd Cyfarfod Pregethu Blynnyddol yn Disgwyfya Dydd Sul Mehefin 5 am 10 a 5 o'r gloch, pryd y pregethir gan Y Parch R Glyn Williams BA Bd Pwllheli. Croeso cynnes i bawb.

PLAID CYMRU: CLWB 100 Mis Ebrill: £10 Mrs Iona Richards, 5 Tai Caradog; £8.50 Mr Hywel Williams, 3 Pentre Helen; Mis Mai: £10 Mr Hywel Lewis, Llys Anedd; £8.50 Mrs Eirlys Williams, 3 Pentre Helen.

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs D. O James Rhes Vaenol, ddiolch yn fawr iawn am y cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur geni eu mab Gethin Rhys, diolch yn fawr iawn.

BETWS GARMON

Mae Pwyllgor Scanner Betws Garmon a Rhyd-Ddu yn canlyn ymlaen i godi arian at wahanol achosion ac yn Bryn Gloch drwy garedigrwydd Mr a Mrs Iestyn Jones bydd "Barbaciw" ar Nos Wener Mehefin 24 am saith o'r gloch. Bydd yr elw yn cael ei rannu rhwng ymchwil i'r cancr, cymorth y cancr a M.S. Enw'r Pwyllgor yw 'Cymdeithas Elusen Gwyrfa'.

CABS THOMAS DEINIOLEN

**Gwasanaeth 24 awr
Ffôn: Llanberis 871049**

**Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277**



**Am groeso cartrefol Cymreig bob amser gan
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff.**

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Anedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.

DYMUNIADAU GORAU am wellhad buan i Miss Greta Davies, Grassgarth sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Eryri, Caernarfon.

GWELLHAD: 'Rydym yn falch o glywed fod Mrs Nanse Roberts, Manod yn gwella ar ôl cyfnod o salwch yn ddiweddar.

PENBLWYDD: Llongyfarchiadau i Wendy Morris, Clydfan ar ddathlu ei phenblwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Carolyn Owen, Tegfryn sydd yn nyrsio yn Ysbyty Gwynedd ar lwyddo yn ei Arholiadau S.R.N. Pob dymuniad da ar gyfer y dyfodol.

CROESO ADREF. i Mr O Stanley Roberts, Hafod Wen, Glanffynnon sydd adref ar wyliau o Nairobi.

DYMUNA Meirwen a Selwyn Lloyd, Afallon, 15 Bryn Moelyn ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur geni eu mab Iwan Machno.

CAPEL MAWR: Trip yr Ysgol Sul: Eleni bydd y trip yn mynd i Rhyl dydd Sadwrn Mehefin 25. Y pris fydd £2.50 i Oedolion. Os ydych am fynd ar y trip a rowch eich enwau, gyda'r arian i'r Arolygwr Olwen Llywelyn, neu unrhyw un o athrawon yr Ysgol Sul, erbyn dydd Sadwrn, Mehefin 11, os gwelwch yn dda.

PLAID CYMRU: Helfa Drysor: Ar noson braf o Fai daeth tua 80 ynghyd i fynd ar yr helfa a drefnwyd yn gampus gan Cliff Williams ac Arwyn Roberts. Cafwyd noson hwyliog iawn, gan orffen yng Ngwel-y-llyn am damaid o fydd (er bod rhai yn hwyrach na'i gilydd yn cyrraedd wrth gwrs!) y cyntaf i gwblhau'r helfa, gyda marciau uchel iawn, oedd Elizabeth Roberts, Llanrug, gyda thair cydymaith Helen, Wenna a Morfydd; 2. Gwyndaf Jones a'i griw; 3. Andrew Parry gyda Karen, Shirley a Brian (Waunfawr). Aeth y wobwr gysur i Barbara Owen, Idwal a Mair. Enillwyd y raffl gan Gwenda Roberts a rhoddwyd y diolchiadau gan gadeirydd y Gangen, Phyllis Ellis.

CHWIORYDD PONTRHYTHALLT: Cynhaliwyd cyfarfod y chwiorydd ddydd lau y pedwerydd ar bymtheg o Fai gyda Mrs J C Williams yn llywyddu.

Cymerwyd y gwasanaeth dechreuol gan Mrs M.L.I. Williams a'r siaradwraig oedd Mrs E. W Thomas, Dolwar. "Tros y Bont" oedd testun ei sgwrs. Cafwyd ychydig sylwadau o gyfarfod Sasiwn Genhadol y Chwiorydd yn Wrecsam gan y Llywydd.

Rhoddwyd y te gan Mrs Gwladys M Jones a Mrs Thomas Dolwar.

Dymunir adferiad buan i Mr Richard Ellis, 53 Bro Rhythallt a Mrs Owen 8A Bro Rhyddallt sydd yn Ysbyty Gwynedd.

YSGOLION SUL: Llongyfarchiadau i blant ysgolion Sul Capel Mawr a Pontrhythallt ar wneud mor dda yn arholiadau llafar Cymanfa Blant Dosbarth Caernarfon. Cynhaliwyd y Gymanfa eleni yng Nghapel Mawr, Llanrug.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i Gerallt Hughes a ddaeth yn gyntaf dan 7 oed yn yr arholiad llafar ac i Catrin Hughes a ddaeth yn gyntaf dan 10 oed yn yr arholiad llafar ac yn gyntaf dan 11 oed yn yr arholiad ysgrifenedig yng Nghymmanfa Cylch Padarn. Mae Gerallt a Catrin, 2 Tai Crawia yn aelodau yng Nghapel Cysegr, Bethel.

DYWEDDIAD: Llongyfarchiadau i Eluned Mai Roberts, Hafod y Rhos, Llanrug ar ei dyweddïad â Mark Williams yn ddiweddar.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol y gangen ar Fai 10 dan lywyddiaeth Menna Williams. Y swyddogion am 1988-89 fydd: Llywydd: Ann Evans; Is-lywydd: Mary Robert; Ysgrifennydd: Nan Humphreys; Trysorydd: Joyce Jones; Is-drysorydd: Margaret Parry; Gohebwr y Wasg: Joan Griffith a Mair Huws. Bydd Myfanwy Parry, Olwen Huws a Janice Jones yn aelodau newydd o'r pwyllgor.

Cynhelir yr Ŵyl Gelf a Chrefft yn yr Aelwyd yng Nghaernarfon nos Fercher Mehefin 15. Gofynnir i bawb ddod â'r cynnyrch yno erbyn 5.30 ac yna estynnir croeso i'r cyhoedd i'r arddangosfa o 7 o'r gloch ymlaen. Bydd siop I'r Dim yn arddagnos ei nwyddau yno hefyd.

Nos Wener, Mai 27 am 7.30 dethlir yr Ŵyl Fai. Bydd noson o ddramâu byrion yn Neuadd Ysgol Brynrefail.

Eleni i Nant Gwrtheyrn y bydd yr aelodau yn mynd ar eu gwibdaith. Bydd y bws yn cychwyn yn brydlon am 6 o'r gloch o Sgwâr Llanrug ar Fehefin 14. Enwau cyn gynted ag sydd bosibl i Joan Griffith. Mae'n

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwr**

debygol y gellir cynnig lle i ffrindiau'r aelodau a'r cyntaf i'r felin fydd y drefn i hynny.

Llongyfarchwyd Myfanwy Parry a Menna Williams ar ddod yn neiniau am yr eildro - i Catrin a Jacob.

Cafwyd paned gan Nansi Lovatt, Megan Jones, Cari Owen a Margaret Jones. Yn rhyfedd iawn Cari a Margaret enillodd y ddau raffl hefyd. Diolchwyd i bawb gan Ann Evans.



Jonathan Davies a Gareth Jeffs o Ysgol Gynradd Llanrug a ddewiswyd i actio rhannau yn y gyfres deledu "C'mon Midffild" a ffilmiwyd yn ddiweddar yn yr ardal.

DIOLCH: Dymuna Bernadette (Siop Pontrhythallt) ddiolch i bawb - yn gwsmeriaid, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd tuag ati tra yn yr ysbyty yn ddiweddar.


PLANT MEDDYLGAR: Daeth plant Safon 1 yr Ysgol Gynradd â theganau i'r dosbarth yn ddiweddar gyda'r bwriad o gynnal arwerthiant. Casglwyd digon o arian i brynu jig-sô a dau lyfr, ac yna cyflwynwyd rhain i ward y plant yn Ysbyty Gwynedd. Roedd y plant wrth eu bodd i dderbyn llythyr, wedi ei gyferio atynt oddi wrth un o swyddogion yr Ysbyty yn diolch iddynt ac yn cydnabod eu haelioni.

CYFARFOD CYFFREDINOL CLWB PÊLDROED LLANRUG

**Nos Fawrth Mehefin
7fed am 7.30
Yn Eithin Duon,
Llanrug**

**Gofynnir i bawb sydd
â diddordeb wneud
ymdrech i fod yn
bresennol**

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiaml o bris a gosod

**Crefftwyr profiadol yn eu gosod
Ffoniwch am bris i**

**J R PRITCHARD, 14 Glanrafon,
Bontnewydd**

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)

Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

CRIB COCH

**Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772**

**TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN**

**Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser**



CAAG

ADRODDIAD C.A.A.G.

Mae blwyddyn gyfan wedi mynd heibio ers sefydlu Cymdeithas Addysg yr Amgylchfyd Gwynedd ac mae'r ymateb oddi wrth nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd wedi bod yn dda iawn. Yn ogystal ag ysgolion; ymaelododd llawer o'r cyhoedd â'r gymdeithas - adlewyrchiad efallai o'r diddordeb cynyddol gan bobl mewn materion amgylchyddol.

Yn y dyddiau yma pan yr ydym yn ymwybodol o broblemau megis glaw asid, Chernobyl a'r byggythiad cyson oddi wrth datblygiadau niwedidiol eraill, mae addysg amgylchfyd yn fwy perthnasol nag erioed. Mae yna, wrth gwrs, lawer o waith amgylchyddol gwyb yn cael ei wneud yn ein hysgolion led-led Cymru ond tybed a oes yna le i wella'r cysylltiad a'r cyfnewid gwybodaeth rhwng y byd addysg a'r lluo o fudiadau amrywiol sy'n ymwneud â'r amgylchfyd? Fel un ymateb i hyn sefydlwyd y C.A.A.G., gyda'r amcanion canlynol:-

1. I hybu a chefnogi pob agwedd o Addysg yr Amgylchfyd yng Ngwynedd.
2. I feithrin diddordeb plant ysgol, pobl ifanc a'r cyhoedd mewn materion cyfoes sy'n ymwneud â'r amgylchfyd.
3. I fod yn ddolen gyswllt rhwng ysgolion, Colegau a sefydliadau'r llywodraeth a chyhoeddus sy'n gweithio yn yr amgylchfyd.
4. I hybu, datblygu ac ehangu Addysg yr Amgylchfyd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Hefyd rydym yn bwriadu cynnyrchu Taflen Newyddion - o'r enw "Gwaith Moes" unwaith y tymor - er mwyn dosbarthu syniadau a gwybodaeth o'r hyn sydd ar gael i athrawon y sir yn maes addysg yr amgylchfyd. Os oes gan unrhyw ysgol ddeunydd perthnasol er mwyn cynnwys yn y rhifyn cyntaf, byddwn yn falch iawn o'i dderbyn (anfonwch i Geraint Gerge, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog.)

Eisoes yn y flwyddyn a aeth heibio cynhaliwyd cyfarfodydd ar amrywiol bynciau o amaethyddiaeth i Ynni Niwcliar a chafwyd cyfraniadau gan amryw o fudiadau gan gynnwys y Bwrdd Dŵr, CEBG, Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Parc Cenedlaethol Eryri a Choleg y Brifysgol, Bangor.

Fel y gwelwch, mae rhaglen 1988-89 yr un mor amrywiol gyda rhywbeth, gobeithio, at ddant pawb sydd â diddordeb yn yr hyn sy'n digwydd yn y byd o'u cwmpas. Llenwch y ffurflen ymaelodi ac ymunwch yng ngweithgareddau'r C.A.A.G. - Cymdeithas Amgylchyddol Gymraeg ei hiaith!

Os am unrhyw fanylion pellach, cysylltwch â Geraint George, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Blaenau Ffestiniog, LL41 3YU. Ffôn Maentwrog 324.

Dydd Sadwrn, Mehefin 25ain 1988 10 a.m. - 5 p.m. Plas Tan y Bwlch. Taith Gerdded - Croeso i blant a theuluoedd. Coed Maentwrog a'r Moelwynion. - Dewch a sgidiau cerdded, dillad glaw a bwyd! Y daith o dan arweiniad staff Tan y Bwlch.

LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Ebrill 28 dan arweiniad Mrs Jan Davies. Darllenwyd y cofnodion a'u harwyddo a darllenwyd y llythyr misol gan yr ysgrifenyddes.

Dymunwyd gwellhad buan iawn i Mrs Hannah Jones. Ein gŵr gwadd am y noson oedd Mr Rol Williams o Waunfawr a chafwyd sgwrs ddiddorol iawn am hanes yr ardal ar droed y ganrif gyda phigion o'r gwahanol bapurau. Diochwyd iddo ac i'r gwestwragedd gan Mrs Arvon Evans. Y gwestwragedd oedd Mrs Dilys Jones, Mrs Megan Hughes a Mrs Helen Morris. Enillwyd y raffl gan Mrs Dilys Phillips.

Penblwydd hapus i Mam, Mrs Margaret Jane Roberts, 64 Maes Padarn, yn wyth deg oed ar y pedwerydd o Fehefin oddi wrth Mona, Gwylm, Keith, June, Dei a Mari Emllyn.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad buan i'r rhai canlynol: Mr. John Parry, Maes Padarn; Mr Alwyn Owen, Stryd yr Wyddfa; Mrs Enfys Parry, Noddfa, Stryd Fawr; Mrs Hughes, Maes Padarn; Mrs Carrie Hughes; Iwan Harding, Terry Saynor. I mam Mrs Deina Owen, Stryd Goodman sydd yn aros yn Llanberis ar hyn o bryd ar ôl triniaeth i'w llygaid.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn â Mrs Elinor Williams, Maes Padarn a Mair, John ac Arfon yn eu profediageth o golli fam a nain.

LLONGYFARCHIADAU i Andrea Roberts, Stryd Goodman ar ddahlu ei phenblwydd yn ddeunaw oed.

Hefyd i'r rhai canlynol ar eu penblwydd yn un ar hugain oed: Judith Jones, Dakota; Gethin Williams, gynt o 7 Stryd Thomas; Stephen Roberts, Dôl Elidir; Arwel Hughes, 1 Stryd Yankee; Stephen Thomas gynt o 88 Maes Padarn; Ian Hughes, 87 Maes Padarn

Hefyd i Paul Roberts, Stryd Goodman a Gillian Evans, Stryd Newton sydd hefyd wedi dathlu ei phen blwydd yn ddiweddar.

PRIODAS RUDDER: Llongyfarchiadau i Laura ac Edgar Williams, Rhos Cambrian ar achlysur eu priodas Ruddem ar Fai 17. Hefyd dymunwn yn dda i Dennis ac Ina Jones, Llythyrdy ar achlysur eu priodas Ruddem hwythau yn mis Mehefin.

LLONGYFARCHIADAU i Hefin, mab Mrs Delia Parry, Plas Tion ar gael ei benodi yn brifathro "Mountain Lane" C.P. School Bwcle.

PENBLWYDD: Penblwydd hapus i Darren Owen, 15 Dôl Elidir, Llanberis sydd yn 5 oed Mehefin 5ed oddi wrth mam, dad, nain taid ac Andrew a'r teulu oll.

Penblwydd hapus i Jane Stryd Turner a Mair, Maes Padarn oddi wrth Caroline a Melanie.

BEDYDD: Dydd Sul Mai 1af yn eglwys St Padarn o dan ofal y Rheithor y Parch Alun Hawkins bedyddiwyd Ian, mab bach Eleri ac Eilir Parry Pen Bont. Y mamau bedydd oedd Hilary Jones a Delyth Williams a'r tad bedydd oedd Dylan Williams.

DIOLCHIADAU: Dymuna Amanda a Peter Welsby, Nant Peris ac Iola a Ken Sellers, 13 Dôl Elidir Llanberis ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tra bu eu mab bach Nicholas John yn yr ysbty.

Dymuna Ian Hughes, Maes Padarn ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei benblwydd yn un ar hugain oed.

Dymuna Stephen Thomas (Maes Padarn gynt) ddiolch i'w deulu ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben blwydd yn un ar hugain oed.

BINGO: Nos Iau Ebrill 28 yng Ngwesty Prince of Wales cynhaliwyd Noson Bingo tuag at Ymchwil y Galon. Gwnaed elw o dros £160. Dymuna Mrs Betty Hughes ddiolch i bawb am eu cymorth.

Nos Wener Mehefin 17 bydd Bingo yn cael ei gynnal yng NgWESTY Dolbadarn tuag ar Badgers adran iau o'r Sant Iwan. Enwau os gwelwch yn dda i Mrs Carys Hughes 1 Stryd Yankee. Diolch yn fawr.

CLWB Y MAMAU: Dydd Mercher, Mai 11 cynhaliwyd Bingo at Ymchwil y Cancr yn y Ganolfan. Yn y cyfarfod codwyd swyddogion newydd erbyn y flwyddyn nesaf sydd yn dechrau ym mis Medi.

Cadeirydd: Mrs Eirlys Ellis; **Is-gadeirydd:** Mrs Carys Hughes; **Ysgrifenyddes:** Mrs Iola Sellers; **Trysoryddes:** Mrs Alwen Thomas. Nos Wener, Mai 13 aeth y clwb am eu trip blynyddol. Cafwyd noson bleserus iawn yn mynd ar y cwch Queen Victoria ar yr afon Conwy ac wedyn am fwyd a Disco i orffen y noson i "Split Willows" Llanfairfechan. Diolchwch i'r hen swyddogion gan Mrs Carys Hughes am drefnu'r noson ac am eu gwaith am y ddwy flynedd diwethaf.

CROESO YN ÔL: Croeso un ôl i

Ceridwen a Ronnie Jones a'r plant i Llanberis. Maent wedi bod yn byw yng Nghnada ers rhai blynyddoedd bellach. Merch Mr Goronwy Glyn Roberts, Stryd Warden yw Ceridwen ac mae Ronnie hefyd o ardal yr Eco sef o Ddeiniolen. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith unwaith eto.

ER SERCHOG GOF am Dad a Mam annwyl sef Now ac Olwen Jones "Yr hiraeth beunydd sy'n parhau Wrth gofio'n fwyn am annwyl ddau." Oddi wrth Aled, Rhiannon, Glenys ac Eluned, hefyd Trefor, Gareth a Ffranco.

YN EISIAU: Safety Gate i roi ar y grisiau a Baby alarm. Cysylltwch os gwelwch yn dda ac Amanda Welsby, 1 Glanrafon Terrace, Nant Peris, ffôn 872062 neu Iola Sellers, 13 Dôl Elidir, Llanberis. Diolch yn fawr.



Un o gefnogwyr mwyaf brwdfrydig a ffyddlon Llanberis yw Mrs Doris Griffiths sydd wedi dilyn hynt a helynt timau pêl-droed ei phentref ers hanner canrif. Dyma hi ar yr Oval yn ddiweddar yng nghwmni Medwen Jones a Nia Jones.

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

Emyr Jones

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513



Gwasanaeth NEWYDD yn
yr ardal!

EMYR LL. PARRY

M.S.S.CH.
M.B.CH.A.

CHIROPODIST GWASANAETH CARTREF

57 Glanffynnon
LLANRUG
FFÔN (0286) 5754
(Gyda'r nos)

W.H. JONES

TRYDANWR

Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS

FFÔN:
LLANBERIS 871470

Contractau
Weirio Tai

Cawodydd Trydan
ac ati

Bistro

Glandŵr
43-45 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871278
(Danny a Nerys Roberts)



CURIAD CALON CYMRU



CURIAD CALON CYMRU

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

YMRYSON MÔN EISTEDDFOD BODFFORDD

Tim Llanrug gafodd wahoddiad i gynrychioli'r "tir mawr" yn Ymryson y Beirdd nos Wener Mai 13eg. A thim Llanrug ddaeth yn fuddugol yn erbyn "Bro Alaw" a "Thalebolion".
Yr arch-dderwydd, Emrys Deudraeth oedd y Meuryn.

Ateb y llinell:

Mae Bet yn disgwyl eto
Yn naw deg un - had a go!
Tony Elliot

Ateb llinell:

Hen groc o gar yn graciau a gerais,
Ac yn fy ngwendid ond gofid 'gefais.
Iwan Roberts.

Gorffen englyn

Dewch mae'n glawio ebe Noa.
Rhedwch,
Rhaid gadael y ddaear.
Eisiau byw? 'Does funud sbâr.
Arnofiwn - now or nefar!
Tony Elliot

Gorffen pennill

A geir atomfa arall
Yma ym Môn
Yma ym Môn
Sydd gwestiwn i ddyn cibddall
Yn ôl y sôn
Yn ôl y sôn.
A rŵan ceisiwch ddeall
Chwi bobl Môn
O bobl Môn
Bydd bwystfil mwy, anniwall
I lawr y lôn,
Jest lawr y lôn.
Twrog Jones.

Gorffen pennill

A fydd steddod 'mhen canmlynedd?
A fydd Pabell Lân a Gorsedd?
A geir yno gystadleuaeth
"Cerdd i gofio Emrys Deudraeth"?
Selwyn Griffith

Ateb llinell

Cyn hir a roddir i ni ein rhyddid?
Cnau ar bren 'falau yn tyfu 'welid!
John Roberts

Gorffen Englyn

Adain ar gorff llygoden - a wibia
Heibio o wae'r ceubren,
Encilion'n llesg rhag heulwen,
Bywhau pan ddaw'r dydd i ben.
Iwan Roberts

Gorffen limrig

I nofio'n noethlymun aeth Wili
Yng nghwmni ei nain 'nôl y stori,
"Hei nain," medda'r llanc
Wrth ddringo i'r banc,
"Ma 'na goblyn o granc dan eich
bol chi."

Selwyn Griffiths

Gorffen ar fesur pennill telyn

Tri pheth sy'n ticlo Megan,
Ei bod hi'n dlysach rŵan,
Ei ffrindiau'n fil a'i theulu'n bod,
Ers iddi ddod i arian.

Gorffen ar fesur salm: Roedd croen
banana ar y llawr'
(yn null y salmau cân)

Roedd croen banana ar y llawr
Melynddu a phydredig,
Yn eiddgar ddisgwyl bob yn awr
Am droed nad yw'n athletig.

Rhyw feddwyn ddaeth o'i yfed hir
Gan siglo hwnt ac yma,
A sylu'n chwil dros anial dir
Am stwmps hen sigarennâ'.

Ei gorff sigledig uwch y croen
Ei goesau'n ddigon simsan,
A'i feddwl pŵl mewn dirfawr boen
A'i holl synhwyrâu'n gwegan.

Rhoes gam ymlaen, a dau yn ôl;
Rhoes gynnig arni eto;
Nes glanio'n dwrt ar ei ben ôl
Heb help y croen i lithro.

Wrth godi y sathrodd achos sglefr
Anfonodd ef i'w gladdfa;
Nid alcohol droes farwol wefr
I hwn - ond croen banana.
Dafydd Whiteside Thomas.

Gorffen pennill:

Pe cawn ddewis rhoi anrhydded
"Pe cawn ddewis rhoi anrhydded
Heno, Feuryn annwyl (a heb fegian),
Feirniad doeth a gâr wirionedd,
Ai'r holl farciau i MI FY HUNAN
Dafydd Whiteside Thomas

**CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR**

Cywaith caeth

Yr Wybrnant
(a red i Afon Lledr, Afon Conwy a'r
Môr)

'Fory byddi'n diferian dy grwndi
I grindir bob camlan,
A thrydar i bedwar ban
Am irgamp William Morgan.
John Roberts

Cywaith Rhydd
Dolwar Fach

Dyma'r fan
a fu'n "Babell y Cyfarfod",
yn gynyweirfa yr ysbryd
a'i hysgogodd hi,
nefol drwbadwr yr oesau
i folawdu y Gwrthrych
a aeth â'i bryd.

Dyma lannerch y myrtwydd hud
a Rhosyn Saron
a wreiddiasant a threiddio
i galon gwerin.

Dyma drigfa
y "danbaid, fendigaidd" un.

Oddi yma,
cyn ei phenysgafnu
a sawr y Rhosyn,
a gweled ei addasrwydd,
dewiniaeth y tannau
a'i tynnai
i glwt y ddawns
a buarth gŵyl mabsant.

Yno, anwylun cynulliad ydoedd
ym ymrithio ar adain cân.
Ond ei chalon a or-lenwyd
a'i chlust a deneuwyd
i glywed newydd gainc -
gorfoledd y "saith ugeinmil"
A dychwel a wnaeth
i babell y cyfarfod."

A dyma'r fan.

Twrog Jones.



Tlws yr Ymryson

CYMANFA YSGOLION SUL DOSBARTH PADARN

Cynhaliwyd Cymanfa Ysgolion Sul
Dosbarth Padarn dydd Sul Mai 1af,
1988 yn Capel Coch, Llanberis.
Arweinydd y Gân oedd Miss Lowri
Prys Roberts, Brynrefail a'r
organyddion oedd Mr Hugh Peris
Pritchard a Gareth Jones, Capel
Coch. Llywyddwyd cyfarfod y
prynhawn gan Mr Cledwyn Parry,
Capel Coch a chyfarfod yr hwyr gan y
Parch Trefor Lewis. Cymerwyd rhan
yn y cyfarfod dechreuol gan blant a
ieuenctid Capel Coch.

Arholiad Llafar

Dan 4 oed: 1. Caryl Owen a Gwenan Jones,
Cysegr; Dan 5: 1. Ifan Rowlands, Aled
Hefin Roberts, Cysegr; Marc Anthony
Evans, Capel Coch; Sioned Grinley,
Disgwylfa; Dafydd Morris, Dinorwig; Alaw
Mari Hughes a Gethin Williams,
Cefnywaun. Dan 6: 1. Sioned Catrin Davies
a Robin Gwyn Owen, Cysegr; Mari Wyn
Williams, Capel Coch. Dan 7: 1. Gerallt D.
Hughes, Gwynfor Jones, Dewi Griffith,
Catrin Roberts, Bethan Williams, Delyth
Morris, Kelly Williams, Anest Williams,
Cysegr; 2. Richard Henry Jones,
Disgwylfa; 3. Meilyr Emrys, Cysegr.
Dan 8: 1. Elen Jones a Lowri Williams,
Cysegr; 2. Rhian Wyn Davies, Brynrefail;
Dylan P Elis a Rhys Lloyd Jones, Cysegr; 3.
Dafydd T Jones, Cysegr; 4. Richard
Charles Parry, Cysegr; Bethan Williams,
Disgwylfa; 5. Elfed John Williams,
Disgwylfa. Dan 9: 1. Rhodri Roberts a
Carwyn John Morris, Cysegr; 2. Gethin
Davies, Cysegr; 3. Eleanor Gray Williams,
Capel Coch; 4. Julie Ann Jones, Cysegr.
Dan 10: 1. Catrin A Hughes, Llinos Wyn
Morris, Gwenan Elis a Nia Jones, Cysegr;
Manon Williams, Capel Coch. Dan 11: 1.
Llinos Angharad Morris, Llinos Ann
Roberts a Donna Marie Williams, Cysegr;
Eilir Williams, Cefnywaun; 2. Nia Elin
Davies a Sonia Lynne Roberts, Cysegr; 3.
Elena Williams, Disgwylfa; 4. Euros
Williams, Cefnywaun.

Dan 12: 1. Marian Lloyd Jones, Brynrefail a
Menna D Williams, Cysegr; 2. Nicola
Louise Houston, Brynrefail; 3. Julie Ann
Jones, Cysegr ac Owain Gwyn, Brynrefail.
Dan 13: 1. Ruth Parry a Sioned Owen,
Cysegr; 2. Bethan Jones a Manon Elis,
Cysegr; 3. Gwawr Williams, Cefnywaun.
Dan 14: 1. Mandy Williams, Cysegr a
Glenda Jones, Capel Coch; 2. Marek Wyn
Sutherland, Cefnywaun; 3. Catherine Ann
Gray Williams, Capel Coch.
Dan 16: 1. Joyce Elizabeth Williams,
Cefnywaun. Dan 50: 1. Mrs Eryl Jones a
Carys Williams, Capel Coch. Dros 50: 1.
Mrs Betty Roberts, Dinorwig.
Cydadrodd dan 9: 1. Parti Carwyn John,
Cysegr. Cydadrodd dan 11: 1. Parti
Gwenan a Parti Nia Elin, Cysegr.

Arholiad Ysgrifenedig

Dan 9: 1. Rhodri Roberts, Cysegr; 2.
Carwyn John Morris a Gethin Davies,
Cysegr; Dan 11: 1. Catrin Hughes, Cysegr;
2. Gwenan Elis, Cysegr; 3. Llinos
Angharad Morris a Donna Marie Williams,
Cysegr; 4. Llinos Ann Roberts, Cysegr; 5.
Nia Elin Davies, Cysegr; 6. Llinos Wyn
Morris, Cysegr; 7. Julie Ann Owen a Nia
Jones, Cysegr; 8. Sonia Lynne Roberts,
Cysegr. Dan 14: 1. Marek Wyn Sutherland,
Cefnywaun.

Carai'r pwyllgor ddiolch i bawb yn
Capel Coch a weithiodd i wneud y
Gymanfa yn un llwyddiannus. Diolch
arbennig i'r organyddion ac i Miss
Lowri Prys Roberts am ei gwaith.
Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd y
Gymanfa.


MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



**BANGOR
354646**



**Y SGWÂR,
LLANRUG**

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.

Ffôn:
Caernarfon 2898
(dydd)
Y Felinheli 670124
(nos)

Merched ...
Dynion ...
Plant ...

I gael trin eich
gwallt yn eich
cartref cysylltwch â

SIAN

MAIRANNEDD

LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon 5366

CORNEL Y PLANT IAU

MYND AR DRIP

Mae'r tywydd braf yma, ac 'rwy'n siwr fod rhai ohonoch eisoes yn edrych ymlaen at gael mynd am drip, - trip ysgol neu drip Ysgol Sul. Ydych chi'n cael mynd? Wel beth am rannu'ch profiad hefo ni! Ysgrifennwch eich hanesion a'ch storïau a'u hanfon i 'Eco'r Ifanc', Pant Bryn Gwyn, Tan-y-Coed, Llanrug. Os nad ydych chi'n cael mynd am drip - Wel, i ble fuasech chi'n hoffi mynd

petae chi'n cael y dewis? Mi fuaswn i yn hoffi cael gwybod!!

Efallai y bydd rhai ohonoch yn cael mynd i'r sw i weld yr holl anifeiliaid gwahanol. Mae'r ddau aderyn yma yn byw yn y sw. Rhai lliwgar, lliwgar ydyn' nhw. Coch, melyn, glas, gwyrdd - lliwiau'r enfys i gyd! Fedrwn chi eu lliwio'n ofalus? Pili a Poli yw eu henwau. Ysgwn i p'run yw p'run?

PILI A POLI

Lliwiwch y llun yn ofalus gan ddefnyddio lliwiau llachar



PÔS MIS MEHEFIN

PEN

Mae pob un o'r geiriau yma yn dechrau gyda'r sillaf PEN, er enghraifft:

Rhan o'r corff rhwng y llaw a'r ysgwydd - Penelin.

Sillf wrth le tan - Pen---

Heb wallt ar ei ben - Pen----

Un sy'n cynllunio adeiladau - Pen----

Cysgu - Pen-----

Blith draphlith - Pen-----

Llyffant cyn iddo orffen tyfu - Pen---

Prif swyddfa - Pen-----

Un yn byw mewn pentref - Pen-----

Rhywbeth a wisgir ar ben - Pen----

Rhan o g an - Pen---

ATEBION

1. Pentan; 2. Penmoel; 3. Pensaer; 4. Pendramwngl; 5. Pendramwngl; 6. Penwbl; 7. Pencadlys; 8. Penwbl; 9. Penwisg; 10. Pennill.

CORNEL JOCS

Cnoc! Cnoc!
Pwy sy'n na?
Scini
Scini Pwy?
Scini'm syniad!

HI HI!! HA HA!!

Pa fath o gar mae defaid yn ei yrru?
Mini Meeeeeeeeeeetro!

Athro: Rwan ta Twm, os oes gen i ddeg afal yn fy llaw chwith ac ugain afal yn fy llaw dde, beth sy' gen i?
Twm: Dwylo mawr syr!

Pa gi sy'n hoffi canu?
Corgi!

Pryd mae hi'n bwrw pres?
Pan mae 'na newid yn y tywydd!

Fe freuddwydiodd rhyw ddyn ei fod o'n bwyta marshmalo enfawr. Pan ddeffrôdd, roedd ei glustog wedi diflannu!

HA HA!! HA HA!!

Cnoc! Cnoc!
Pwy sy'na?
Ceri
Ceri Pwy?
Ceri i gysgu!

Cnoc! Cnoc!
Pwy sy'na?
Tudur
Tudur Pwy?
Tudur drws a chei weld!

Pam fod y dyn ag un llaw ganddo wedi croesi'r ffordd?
I fynd i'r siop ail-law.

HA HA!! HA HA!!

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580



RAS NODDEDIG: Yn ystod gwyliau'r Pasg, rhedodd tri o fechgyn o'r ardal i godi arian i Ysbyty Brenhinol Stryd Myrtle, Lerpwl. Cychwynodd y tri o Benllyn, i fyny tua'r Fachwen, dros Graig Llew, heibio Rhydau Duon ac yna'n ôl i Benllyn. Y tri oedd Tony Roberts, David Wagner a Bryn Evans ac yn cadw cwmni i'r tri roedd Ashley Wagner, Geraint ac Andrew Roberts. Cyflwynwyd siec i'r Dr Robert Arnold, arbenigwr ar galonau plant, yn Ysbyty Gwynedd ar Fai 11eg. Syniad y bechgyn eu hunain oedd trefnu'r ras hon a chasglwyd y swm o £100. Da iawn hogia!

CYMANFA DOSBARTH PADARN: Cynhaliwyd Cymanfa Flynyddol y Presbyteriaid eleni yng Nghapel Coch, Llanberis ddydd Sul, Mai 1af. Llongyfarchiadau i Rhian Wyn Davies, Marian Lloyd Jones, Nicola Louise Houston ac Owain Gwyn, aelodau o Ysgol Sul M.C. Brynrefail am eu gwaith canmoladwy ym maes yr arholiad Llafar. Ymhlith yr arholwyr roedd Mrs Carol Houston a Mrs Ifanwy Jones, dwy o athrawesau'r Ysgol Sul ac arweinydd y gân oedd Miss Lowri Prys Roberts.

GENEDIGAETH: Llongyfarchiadau i Bleddyn a Nesta Owen (Tros yr Afon ar enedigaeth eu merch, Bethan Mai, ar yr ail o Fai. Mae'r teulu erbyn hyn wedi ymgartrefu yn 1 Rhos Fictoria, Deiniolen.

DIOLCH: Dymuna Mrs Helen Roberts, Llwyncoed Bach, Penllyn ddiolch i'r perthnasau a'r llu cyfeillion am y cardiau a rhoddion a phob caredigrwydd yn ystod ei gwaeledd diweddar. Diolch hefyd i'r meddygon a'r gweinyddesau am y gofal tra yn Ward Aran, Ysbyty Gwynedd.

DIOLCH: Dymuna teulu y ddiweddar Mrs Ellen Hughes, Bron Afon (gynt)

ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth. Diolch hefyd am y cyfraniadau £126 a dderbyniwyd tuag at Apêl Sganiwr Ysbyty Gwynedd.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Nos Wener, Ebrill 22ain treuliodd nifer o aelodau o'r gangen leol noson ddifyr yn y Twmpath dawns a gynhaliwyd yn neuadd Ysgol Syr Hugh Owen Caernarfon. Nos Wener 6ed o Fai cynhaliwyd Cyngor Gwanwyn Sefydliad y Merched Arfon yn Neadd Ysgol Brynrefail ac anrhydedd Cangen Brynrefail oedd cael bod yn westeion yr ŵyl. Estynnwyd croeso i'r holl ganghennau gan y llywydd sirol, Mrs Rhian Jones ac ar ran cangen Brynrefail gan Mrs Pat Jones. Cynrychiolwyd y gangen leol ar y pwyllgor gwaith gan Mrs Carol Houston, a'r cyfeilydd oedd Miss Lowri Prys Roberts. Yn bresennol hefyd yr oedd Maer Arfon y cynghorydd Ieuan Ll Jones a'i briod a chafwyd gair pwrpasol ganddo. Traddodwyd yr anerchiad gan Mr Eric Sutherland, Prifathro Coleg y Brifysgol, Bangor ar ei bwnc arbenigol, sef anthropoleg - testun astrus ond a gyflwynwyd yn hynod o ddiddorol ac effeithiol i gynulleidfa o ferched! Cafwyd adroddiadau o weithgraddau'r Sefydliad dros y flwyddyn a aeth heibio ac i gloi'r noson cafwyd adloniant chwaethus gan Gangen Deiniolen, cyn troi tua'r ffreutur am luniaeth wedi ei baratoi gan gangen Brynrefail.

Nos lun Mai 16eg cyfarfu'r aelodau yn y Festri. Treuliwyd y cyfarfod dan arweinyddiaeth y llywydd, Mrs Pat Jones yn trafod argymhellion cyfarfod Blynnyddol Sefydliad y Merched a gynhelir yn Neuadd Albert, Llundain, Mehefin 2il. Cynrychiolydd y gangen yno fydd Mrs Gwyneth Williams ynghyd â Mrs Carol Houston ar ran y Pwyllgor Gwaith. Diolchwyd i Mrs Pat Jones gan Mrs Jean Davies. Darllenwyd llythyr dderbyniwyd gan yr ysgrifennydd sirol ar ran y Pwyllgor Gwaith yn llongyfarch a datgan gwerthfawrogiad o waith aelodau cangen Brynrefail a'u croeso hael i'r Cyngor Gwanwyn gynhaliwyd yn Ysgol Brynrefail. Rhoddwyd lluniaeth y noson gan Mrs Jennie Angharad Roberts a Mrs Jennie Maxwell a diolchwyd iddynt gan Mrs Eirlys Williams. Enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Rhian Jones, gan Mrs Ifanwy Jones. Cynhelir Helfa Drysor Sefydliad y Merched Gwyrfa, nos Wener, Gorffennaf 15fed. Derbyniwyd yr enwau gan Gysylltwr Grŵp Gwyrfa, Mrs Pat Jones.



Dau lun o aelodau timau pêldroed y pentref a dynnwyd yn ystod y pumdegau cynnar yn ystod gweinidogaeth Y Parch Glyn Meirion Williams ar Eglwys M.C. Brynrefail.

Llun 1. O'r chwith, rhes gefn: Wilbert Williams, Paul Glabik, Gwilym W Williams, Goronwy Evans, Gwilym Ellis, Dafydd Wyn, Phil Graham, Tom Foulkes a'r Parch G. Meirion Williams.

Blaen: ?, Malcolm Jones, Arthur V Roberts, Leslie Williams.

Llun 2: O'r chwith, rhes gefn: Rol Williams, Gwilym W Williams, Geraint Roberts, Parch G Meirion Williams, Ifan W. Williams, Gwynndaf Williams a Billy Jones.

Blaen— Owen Glyn Foulkes, Cyril Jones, Harold Williams, John Morris, Bob Williams a Joe?

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis
871047

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLLEN
Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



DEWIS EANG O
WELYAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

TAC SIS BETH EL

UNRHYW AMSER • UNRHYW BELLTER

Ffôn: (93) 670555

Un arall o straeon Y GWALCH 'STEVEN'

Mae bod yn rhiant i blentyn yn cychwyn yn yr ysgol am y tro cyntaf yn eangu gorwllion rhywun na fu'r fath beth. Dyna fy mhrofiad i beth bynnag.

Roeddem yr adag honno yn trigo tu draw i Lundain chwedl pobl, ac yr oedd gen i un hogyn: hynny ydy, yr unig un â fegais gartref, a fo oedd Benjamin y llwyth.

Cymraeg oeddann ni i gyd yn siarad yng nghanol y fro estronol honno, a phan ddaeth yn amser iddo fynd i'r ysgol, roedd hi'n dreth arno am gyfnod nes iddo gael gafael ar Saesneg yr Home Counties.

Ysgol yn perthyn i'r Eglwys oedd hi, a'i gweithgareddau yn gyffredinol wedi eu hanelu at feithrin plant yn ddinasyddion rhesymol gwâr. Roedd y sefydliad ei hun bron ar gamfa led yr A23, y ffordd sydd yn mynd i lawr i arfordir y de, ac i ganol Llundain yn y cferiad arall, ac yr oedd yr adloniant o gipio plant - arferiad sydd erbyn heddiw wedi lledaenu i draethau Môn a'r ynysoedd cyfagos - yn beth cyffredin yn y swabia rheiny, hyd yn oed yr adeg honno. Oherwydd hyn, un o gwersi y rhoddid y pwyslais mwyaf arni yn yr ysgol oedd yr un i arhgyhoeddi plant o'r perygl o siarad â dieithriaid. Gan fod yr arswyd yn un cyffredinol, roedd y mamau yn dod i mofyn y plant yn ddyddiol ar ddiwedd y pnawn.

Roeddwn innau yn cymeryd fy nhro i wneud y ddyletswydd honno, ac un feichus oedd hi, o gofio fod yn rhaid i rhywun sglertian yn nghwmni fflyd o fenywod oedd yn edrych arnoch fel pe tasa chi wedi dod yno i gael cyfweiliad i fod yn llywydd Merched y Wawr.

Sylwais fodd bynnag fod un ddynes bob amser ar ei phen ei hun. Roedd hi'n eistedd ar fainc â oedd wedi ei gosod o dan griafolen ymhen pellaf y cowt. Rhyw siortan ddigon anfarchnadol oedd hi; pe tasa fo'n weddus i mi roi barn - tua'r deg ar hugain oed, a'i gwallt am ben ei dannedd. Syllai i'r gwag leoedd fel pe tasa hi yn cyfri haid o wybed.

Ni chymerai'r mamau eraill sylw ohoni, na hithau ohonynt hwythau, a rhag ofn rhoi'r argraff fy mod i'n gwneud arferiad o boenydio merched yn unig, chymerais innau'r sylw ohoni ychwaith, hynny yw, tan y diwrnod hwnnw yr eisteddais ymhen arall y fainc.

Wedi i mi rannu'r fainc hefo'r ddynes am dro neu ddau fel hyn,

dyma fi un diwrnod yn mentro gofyn iddi.

"Pwy sydd gynoch chi yma?"

"Steven", meddai hi ar ei hunion, ac yr oedd y gair fel pe tasa yn agor rhagddorau ei meddwl hi. Dechreuodd fyrlymio hanes ei phlentyn; fel yr oedd o yn hyn ac yn llall ac yn arall - yn ddel a da a chlyfar, ac yn bob dim arall gorau dan haul.

Ar ôl hynny, os awn yn agos ati, roedd yn bwrw cynnwys ei chalon wrthyf - rhywbeth a aeth yn fuan yn ddiflaid, ac mi welwn yn blaen erbyn hyn pam yr oedd pawb yn ei gochel hi. Serch hynny roedd fy chwilfrydded yn fawr i weld yr angel bach hwnnw o blentyn, tasai'n ddim ond er mwyn ei gymharu â fy nghynrych fy un, ond yr oedd o yn amlwg yn un hirymarhous, a finnau bob amser ar frys.

Gofynnais i fy mab yn y diwedd a oedd yn gwybod pwy oedd Steven, ond doedd o erioed wedi clywed amdano, ac un pnawn pan ddaeth Miss West y brifathrawes ataf i sgwrsio yn gyffredinol.

"Rwy'n sylwi eich bod wedi cael trwodd at Mrs.....," meddai. "rydych chi wedi gwneud camp i ni i gyd."

"O, y ddynes unig," meddwn. "Yr arferol beth wyddoch chi. Cymharu plant ac ati. Ond rwy wedi bod yn trio dyfalu p'r un yw ei phlentyn hi."

Roedd y brifathrawes yn sylweddoli erbyn hyn fy mod mewn tywyllwch.

"Roedd o'n dod i'r ysgol yma," meddai yn y diwedd, "Ond fe gafdd ei gipio rhyw Sadwrn pan oedd o ym Mhrighton hefo'i fam. Welwyd byth mohono."

Roedd hi'n gwybod beth oeddwn yn mynd i'w ofyn wedyn.

"Mae hi'n dal i ddod yma bob dydd fel hyn," meddai, "ac yn aros nes y bydd pawb wedi mynd. All neb wneud dim â hi. Fedrwn i ddim

ei rhwystro wrth gwr."

A dal i ddod wnaeth hi: ar bob tywydd, ond beiwch fi neu beidio - mi gadwais innau yn glir â hi wedyn hefyd.

O.N. Mae straeon cofiannol Y Gwalch, a ddarllenwyd gan

Meredith Evans ar Radio Wales, ac a ymddagnosodd yn y 'Countryman', yn cael eu cyhoeddi rhwng cloriau ynghyd â chofiant ei rieni, o dan y teitl *Clouds of Time*, gan Wasg Carreg Gwalch. Bwriedir cyhoeddi y ffurf Gymraeg, gyda darluniau o'r cyfnod ar yr un pryd.

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

Y NEUADD GOFFA: Fel yr adroddwyd yn y rhifyn diwethaf mae pwyllgor y Neuadd wedi penderfynu symud ymlaen i ail adeiladu'r Neuadd ar gost o tua £60,000. Golyga hyn godi hyd at £15,000 yn y pentre dros y ddwy flynedd nesaf. Mae gan y pwyllgor Glwb 100 sy'n dod ag arian da iawn i mewn i'r coffrau ac o ddiwedd Mehefin bydd cyfle i aelodau newydd ymuno yn y clwb. Telir £1 y mis gan yr holl aelodau ac mae hanner yr incwm yn cael ei roi yn wobrau i aelodau lwcs bob mis. Os oes aelodau newydd am ymuno â'r Clwb cysylltwch â Gwyndaf Williams, Tan y Cae, neu unrhyw aelod o'r pwyllgor.

Mewn cyfarfod o'r pwyllgor nos Fercher, Mai 18, diolchwyd i blant Dosbarth Miss Bethan Parry am eu cyfraniad o £170 i'r gronfa yn dilyn ras nodedig o amgylch iard yr ysgol.

Cynhelir cyfarfod nesaf y pwyllgor yn y Neuadd am 7.30 nos Fercher, Mehefin 1af. Croeso cynnes i bawb.

EISTEDDFOD YR URDD DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990: Cynhaliwyd Pwyllgor yr Apêl yn ddiweddar, a phenderfynwyd yn unfrydol i'r aelodau fynd o gwmpas y pentref i gasglu o dŷ i dŷ. Bydd amlen yn disgyn trwy'r blwch llythyr cyn bo hir, ac fe'i cesglir gan un o'r pwyllgor ymhen ychydig ddyddiat wedyn.

Penderfynwyd hefyd i gynnal noson fabolgampau yn y cae chwarae ganol Gorffennaf. Ceir mwy o fanylion y mis nesaf.

MERCHED Y WAWR: Nos Fercher Mai 11eg, yn yr ysgol, cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen dan lywyddiaeth Mrs Lynwen Morris. Y wraig wadd oedd Mrs Angela Evans a chafwyd sgwrs a sleidiau ar waith y gymdeithas sy'n gweithredu er lles plant â nam corfforol.

Y gwestwagedd oedd Mrs Beti Owen, Mrs Eirlys Sharpe a Mrs Bessie Ellis.

Ar ddechrau'r noson cafwyd cyfarfod blynyddol i ddewis swyddogion newydd. Dewiswyd y canlynol: Llywydd - Mrs Meinir Roberts; Is-lywydd - Mrs Glenys Griffiths; Ysgrifenyddes - Mrs Nora Parry; Is-ysgrifenyddes - Mrs Alys Jones; Trysorydd - Mrs Mary Evans; Is-drysorydd - Mrs Eirlys Williams.

Aelodau'r pwyllgor fydd Mrs Sheila Roberts, Mrs Rita Williams, Mrs Nan Rowlands a Mrs Bessie Ellis.

Taith ddirgel fydd cyfarfod olaf y tymor ar Fehefin 8fed. Dylid rhoi enwau mor fuan ag sydd posibl i Mrs Eryl Roberts os gwelwch yn dda.

LLONGYFARCHIADAU i Kelvin Hughes, Bron Gwynedd ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed ar Fai 15fed, ac i Eilian Jones, 24 Bro Rhos a fu yn dathlu ei ben-blwydd yn 18 y diwrnod cynt.

YSGOL SUL Y CYSEGR: Brynhawn Sul, Mai 29, bydd plant Ysgol Sul y Cysegr yn mynd am dro i Nant Gwrtheyrn, hefyd mae taith i'r Wybrnant wedi ei threfnu ar gyfer dydd Sul, Gorffennaf 17. Gobeithio y bydd y tywydd braf yn parhau.

FFORDD OSGOI Y FELINHELI: Nos Iau, Mai 12, cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn Festri y Cysegr i roi cyfle i'r pentrefwyr leisio eu barn ar yr awgrym y dylai ffordd osgoi y Felinheli ddod drwy'r pentref. Dewiswyd Richard Ll Jones yn llywydd a chafwyd sylwadau yn gwrthwynebu'r awgrym gan y Cynghorwyr W Jones, S Jones a Dewi Rowlands. Pwysleisiwyd na ddylai neb, ar hyn o bryd, boeni y byddai eu tai yn cael eu chwalu, a chlywyd nad oedd Undeb yr Amaethwyr bellach yn cefnogi'r syniad. Penderfynwyd casglu deiseb yn gwrthwynebu'r awgrym ac erbyn nos Lun, noson cyn yr Ymchwiliad Cyhoeddus ym Mhlas Menai, roedd dros 500 wedi ei arwyddo. Dewiswyd nifer i ddadlau yn erbyn yr awgrym yn yr ymchwiliad.

YR URDD: Daeth tymor yr Urdd eleni i ben gyda ymweliad â'r Ganolfan Hamdden. Diolch i aelodau'r Pwyllgor a ddaeth i helpu i drefnu gemau i'r plant.

Mae cyfarfod o'r pwyllgor i gloi gweithgareddau y tymor wedi ei drefnu am 7.30 o'r gloch nos Lun, Mai 6ed yn y Neuadd.

Dymunir y gorau i Angharad Price, Angharad Elis a Meinir Dauncey Williams fydd yn cynrychioli Aelwyd Bethel mewn cystaldeaeth tîm siarad cyhoeddus yn Eisteddfod yr Urdd yn y Drenewydd. Diolch i Mrs Mair Read am roi bob cymorth iddynt wrth baratoi.

Beth am ddysgu dreifio gydag

**YSGOL YRRU
BETHEL**

Cysylltwch â

**Richard M. Hughes
42 Bro Rhos, Bethel
Portdinorwig
671009**

Am wledd flasu
dewch at
Gwyndaf a Ceris
Williams

**SIOP
SGLODION
BETHEL
CHIP SHOP**

**Archebwch
dros y ffôn!
Portdinorwig 670963
Cartref 670170**



I weled ein crôg fasgedi - a'r grug
Sydd mor grand, a pherthi
O goed fyrdd, i wyrdd erddi
Dowch oll i'r Antur, da chwi

**CANOLFAN ARDD
ANTUR WAUNFAWR**

Ffôn: Waunfawr 721

Am flodau gardd i harddu - a llysiau
Sy'n llesol i'r teulu
Ewch heibio i archebu
Yno lwyth planhigion lu

*** GRUG
* ALPAU
* PERTHI
* LLYSIAU**

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

URDD ADRAN BENTREF: Nos Lun Mai 9fed cynhaliwyd Mabolgampau. Diolchwn i Mr a Mrs Dafydd Morris am ganiatau i ni ddefnyddio'r cae.

Llongyfarchiadau i'r plant i gyd a gystadlodd. Bydd y canlynol yn cynrychioli'r adran ym Mabolgampau'r Cylch yn Ysgol Syr Huw Owen, Nos Lun, Mai 23ain am 5 o'r gloch. Dymunwn bob llwyddiant iddynt.

Dan 10 oed: Merched: Rhedeg - Lois Dafydd ac Angela Webb. Bechgyn - Rhedeg: William Lewis a Stephen Thomas. Merched - Naid Uchel: Eira Wyn Jones ac Angela Webb; Bechgyn - Naid Uchel: William Lewis a Rhys Owain. Merched - Naid Hir Tracey Webb a Siân Lewis; Bechgyn Naid Hir: Tristan Jones a Huw Tegid. Taflu Pêl: Merched - Eira Wyn a Lois Dafydd; Bechgyn - Rhys Owain a Tristan Jones;


Dan 12 oed: Merched - Rhedeg: Sioned Wyn Jones ac Eleri Llwyd Jones; Bechgyn - Rhedeg: Siôn Llewelyn Roberts a Llion Roberts. Merched - Naid uchel - Sioned Wyn Jones ac Eleri Llwyd; Bechgyn - Naid uchel: Arwel Jones a Siôn Llewelyn; Merched - Naid Hir - Elizabeth Ann a Nia Lewis; Bechgyn - Naid hir: Jonathan Richards a Llion Roberts. Merched - Taflu Pêl: Elizabeth Ann a Nia Lewis; Bechgyn - Taflu Pêl: Arwel Jones a Jonathan Richards.

Yn ychwenegol i'r cystadlaethau uchod bu'r canlynol yn llwyddiannus:

Rhedeg dan 7 oed: 1. Siôn Wyn Jones, 2. Elgan Price Williams; 3. Dion Dafydd; Taflu Pêl dan 15 oed: 1. Andrea Lewis, 2. Sioned Lewis; 3. Susan Williams.

Roedd pawb wedi mwynhau'r noson a diolchir i Yncl Dafydd Pen Dinas, Yncl Tony, Yncl Eifion ac Yncl Haydn am ofalu am y cystadlaethau.

Llongyfarchiadau i Owen Turner am gael y wobr gyntaf am waith celf a chreffft o 10-12 oed yn Eisteddfod Sir Eryri. Bydd ei waith yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Genedlaethol yn y Drenewydd.



Mae ychydig o seddau gwag ar ôl o hyd ar y bws a drefnwyd i fynd i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Drenewydd ar yr 2il o Fehefin. Cysylltwch â Mrs Elizabeth Jones, 17 Bryntirion os buasech yn hoffi mynd ar y trip. Gobeithir cychwyn tua 7.30 yn y bore o bentref Penisarwaun.

Dymunwn wellhad buan i Arweinydd Adran Bentref yr Urdd, Mrs Delyth Williams sydd wedi derbyn triniaeth i'w llaw yn ddiweddar.

CASGLU: Dymuna Mrs Mathews, Freshwinds ddiolch i'r gwirfoddolwyr a fu o gwmpas yn casglu at y "Cheshire Homes" ac i bawb a wnaeth gyfrannu. Casglwyd £29.02.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Ron Hughes ar fod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd mab i Bronwen a Kevin ddiwedd Ebrill, Osian Wyn, brawd bach i Rhys.

Dymuniadau da a phob bendith i Alwyn Jones, Racca a Sarah Edwards, Rachub ar achlysur eu priodas yn ddiweddar yng Nghapel Carmel, Rachub.

Pob bendith hefyd i Judith Green a'i phriod ar achlysur eu priodas hwythau yn Eglwys Santes Helen, Sadwrn Mai 14.

Pob dymuniad da i Ffion Jones sydd newydd gychwyn ei gyrfa fel nyrs yn Ysbyty Gwynedd.


Llongyfarchiadau i Lois Dafydd a Dylan Williams - y ddau wedi llwyddo'n anrhydeddus gydag arholiadau cerdd - Lois marciau llawn yng Ngradd 1 Theori, a Dylan wedi llwyddo gyda'r pirano gradd 3. Y mae Lois yn ddisgybl i Mrs Griffiths, Llanberis a Dylan yn ddisgybl i Mrs Heulwen Williams, Bethel.

Ar gyrraedd oedran teg o 89 pob dymuniad da i Mrs Gladys Thomas, Tai Newyddion.

GWELLHAD: A dyma'r tywydd braf hir-ddisgwyliedig wedi cyrraedd! Gobeithio fod pawb yn teimlo yn well yn sgil hynny. I'r rhai ohonoch sy'n wael eich iechyd dymunwn adferiad iechyd buan i chwi. Rydym yn falch o glywed god Mrs Nesta Jones, Llys y Gwynt yn gwella wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

PROFEDIGAETH: Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mrs Blodwen Pritchard, Llys y Gwynt ar golli ei brawd yng nghyfraith yn Llangefni.

YSGOL SUL BOSRA: Am eu ffyddlondeb i'r Ysgol Sul eto eleni, trefnir Trip yr Ysgol Sul, Sadwrn Gorffennaf 2il. Gan fod y plant yn hen gyfarwydd â hanes William Morgan a Chyfieithu'r Beibl bellach, gobeithir



Ddydd Sul Mai 15ed bu Nia Lewis, Eryl a Dafydd Jones, Dylan a Gareth Hughes, Huw ac Ynyr Roberts, Mr Selwyn Griffith a'r Parch Tegid Roberts yn cymeryd rhan mewn gwasanaeth arbennig yn Eglwys Gadeiriol Bangor i ddathlu pedwar canmlwyddiant cyfieithu'r Beibl. Roedd plant ac oedolion o Ddeoniaeth Arfon yn canu yn y côr ac yn actio mewn drama gan William R. Lewis, addasiad o waith y Dr. Enid Pierce Roberts, Bangor. Bu ail berfformiad ar y 22ain o Fai.



Llun o swyddogion Parti Merched Lleisiau'r Gweunydd (Agnes Spawton trysorydd, Mary Elliott ysgrifenyddes a Menna Jones is-drysorydd) yn cyflwyno sicr am £450 i'r Chwaer Heulwen Edwards a Dr ALun Morris o'r Uned Gofal Arbennig yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Mae'r sicr yn cynrychioli'r elw o'r cyngerdd a drefnwyd gan y côr yn ddiweddar yn Neuadd y Pentref, Rhiwlas. Llauer iawn o ddiolch i drigolion bro'r Eco am eu cefnogaeth.

ymweld ac Eglwys Gadeiriol Llanelwy er mwyn iddynt gael gweld Cofeb y Cyfieithwyr a'r Gadeirlan ei hun. Yna ymlaen, wrth gwrs i Rhyl. Enwau os gwelwch yn dda i Mrs Elizabeth Jones.

EGLWYS SANTES HELEN: Bydd Trip yr Ysgol Sul ar y cyd â Chapel Bosra. Enwau os gwelwch yn dda i Mrs Ann Paterson.

CYDYMDEIMLWN â Mrs R D Roberts yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yn Llandudno.

PERERINDOD: Roedd 22 o bobl a phlant Penisarwaun ymhlith y 300 neu fwy o bererinion a gerddodd o Ddolwyddelan i Dŷ Mawr Wybrnant, ddydd Sadwrn Mai 21ain. Trenfwyd y bererindod hon gan Esgob Bangor, y Gwir Barchedig J. Cledan Mears fel un o'r dathliadau i goffau cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg 400 mlynedd yn ôl.

YR EISTEDDFOD BENTREF: Cofiwch am yr Eisteddfod, yng Nghapel Glasgoed, Mehefin 24ain. Mae'r rhestr testunnau i'w cael gan Delyth Williams, Janice Jones, Elizabeth Jones, Ceren Jones, Mrs Mary Davies, Mrs Margaret Williams neu gan yr Ysgrifenyddes Nant Roberts, Arwel. Mynnwch eich copi ac ewch ati i ddechrau ymarfer neu i wau, i grosio i arlunio neu ba beth bynnag i ni gael Eisteddfod lwyddiannus eto eleni.

PWYLLGOR NEUADD BENTREF: Enillwyr Clwb Cant, Ebrill oedd: 1. Mrs E Williams, Bryntirion; 2. R Parry, Tawelfa; 3. Gwilym Roberts, Weirglodd Goch.

Gweithgaredd Mehefin fydd Taith Gerdded Noddedig. Bydd Leslie Larsen a Tony Elliot ac unrhyw un sy'n dymuno ymuno â hwy, yn cerdded y mynyddoedd. Apelwin yn garedig am noddwyr. Tynnir Clwb Cant, Mehefin yn Llygad yr Haul, Nos Iau, Mehefin 30ain.

Boreau Coffi, fydd Gweithgaredd

Gorffennaf - yng nghartrefi aelodau'r pwyllgor ac unrhyw un sy'n dymuno ein helpu.

HWYL FAWR: Erbyn y daw y rhifyn nesaf o'r Eco allan bydd yr wythnosau o chwysu ac adolygu ar gyfer arholiadau y Cyd-Bwyllgor Addysg ar ben. Pob dymuniad da i chwi eto'r mis hwn yn eich arholiadau.

CLWB YR HEULWEN: Treuliydd p'nawn difyr yng nghwmni Mrs Myra Griffiths, Mai 17 yn Neuadd yr Eglwys. Bu'n adrodd hanes ei gwyliau mewn gwahanol wledydd a dangoswyd llawer o luniau a llyfrau o'r gwledydd. Diolchwyd iddi gan Mrs Kate Williams. Rhoddwyd y te gan Mrs Gwyneth Jones a Mrs Nellie Roberts, a diolchwyd iddynt gan Mrs P Williams.

Am ei gwaith di-flino fel Ysgrifennydd y Clwb am flynyddoedd lawer cyflwynwyd Cloc hardd i Mrs Percy Williams gan yr aelod hynaf Mrs A Williams Meillionydd fel gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth.



22 BRYNTIRION

TAC SIS WEBB

PENISARWAUN

Ffôn:

Llanberis

870145

**Gwasanaeth 24 awr - pell ac agos
Gwasanaeth Maes Awyr
a Phorthladd
Gwaith Contract**

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Cofio Goronwy Owen

Cododd Môn gewri ym myd bardd a llen,
Magodd emynwyr a chenhadon heddi
Eu henwau fel aër yn ei hanes hên
Er i dir angof orchuddio eu bedd,
A thra bydd y môr yn coffleiddio Môn
Goronwy Ddu, am dano ef bydd sôn:
A'r heniaith yn drysor drud i'w phlant,
Ei ofid ef oedd gorfod marw 'mhell
O'i ynys Wen, heb obaith dod yn ôl
I weled eto yr ardaloedd gwell -
I droedio Môn a gorffwys yn ei chôi
Ond diolch i Dduw am fangre mor hardd
A Bro Goronwy i goffio ein bardd.
Awen Mona.

Ponciau y Chwarel Fawr

Yr enw a roes fywaf o wefr i mi heblaw
Ponc Robin Raber, lle lladdwyd fy nhaid
ydyw Ponc Pant y Ceubren. Enw ar
dyddyn oedd Pant y Ceubren, ond sydd o
dan y tomenydd rwbwl ers blyneddau
fel y Garreg Wen, Cartref Dafydd Sion
gynt, awdur y pennill "Mae Seion Wan
yn griffgan dan y groes" a thaid Dewi
Arfon a Gytun ei frawd, awdur y dôn
"Llef",
J.R. Morris.

Bwthyn fy Nain

Mae heddiw hiraeth prudd
A galar i fy rhan
Mae nain ers llawer dydd
Yn llonydd yn y llan.
A phan ddaw'r marwol gledd
I'm dwyn o'r gornel gain,
Rhoch finnau'n wael fy ngwedd
Wrth ochor bedd fy nain.

Anfonwyd yr hen bennill i'r Herald gan
Arfon Davies, Tŷ Capel Mawr, Llanrug
yn 1967.

Nyrs Hughes, Bro Rhiwen yn 90

Mae'r nyrs yn dal i gofio
Y plant fu 'Nghwm-y-glo,
A deil i sôn amdanynt,
Er iddi newid bro.
A chydaw'r meddwl ifanc
A'r bwyd a gawn mor rwydd
'D yw'r neinti ddim yn ddigon
Wrth sôn am ben ei blwydd.

A chan ei bod mor hoffus
A Beti fydd wrth law
O hyd i dendio arni
Bydd toc yn gant a naw
A phawb yn dweud am dani
Ei bod fel deunaw oed
'Rwyf innau'n cofio ati
Gan ddilyn ôl ei throed.
J.R. Morris 1968

Yn Gant oed

Heno myfi yw'r hyna - yn y fro
Am y fraint diolchaf;
Yn raddol mi gyrhaeddaf
Gant ac un, os gwynt a gaf.
Edward Harker (Isnant)

Dic Ernest Williams

Llenor a'i gwmni'n llonni - a cherddor
A chwarddai wrth weini:
Blaenor yn Nhy'r Iôr, ei Ri
A'i ddiod fel ei Ddewi.
J.R. Morris

Celliog Gwynt

Hynodwydd hwn yw edrych tua'r
gwynt
Dry ei gwrs mor fynych:
Mae'n ardderchog geiliog gwyth
Ar untroed yn yr entrych.
Isalun.

Y Pillion

Polly, ga'i ddod i'r pillion - y tu ôl
I ti eneth dirion?
Roi di "liff" ar hyd y lôn
Fun fad, i'th gariad gwirion?
Glan Rhyddallt

Anfonwyd y penillion hyn i mewn
yn dilyn cais yn yr Eco beth amser
yn ôl.

Gelwaist Pedr ac Andreas
Draw o'r môr i'th ddilyn Di
Gelwaist lago, gelwaist loan
Hen bysgotwyr Galili.

Cyd: Galw finnau, galw finnau
Iesu annwyl ar dy ôl
Galw finnau galw finnau
Fry i mewn i'th gynnes gôl.

Gelwaist Mathew wrth y dollfa
A Zacheus o frig y pren
Ac mae'r ffordd i bublicanod
Heddiw'n rhydd i'r nefoedd wen.

Ar y ffordd i fynwent dawel
Gelwaist fab y weddw wiw
Ar yr alwad, cododd yntau
o afaelion angau'n fyw.

Gelwaist Mair a gelwaist Martha
Gyd Lazarus eu brawd
Yn dy ddilyn a'i dwy hatling
Wele'n dod y weddw dlawd.

Gelwaist Thomas dan dy glwyfau
Pam na chredai ar wahân
Gelwaist hefyd Saul o Tarsis
Ar y ffordd mewn dwyfol dân.

Gyda'th lef y funud olaf
Fry ar groesbren Calfari
Gelwaist ar y lleidr aflan
I baradwyd gyda Thi.

Daeth y gwagedd ar y cyfddydd
I'th groesawu Iesu hardd
Pan y gadewais byrth marwolaeth
Pyrth y bedd oedd yn yr ardd.

Ar dy alwad daeth y gwagedd
I dy ddilyn yn ddi-len
Daeth Joanna a Susanna
Hithau'r Fair o Fagdalen.

Gelwaist dy anwyliaid tirion
Pan ar ffordd y ddwyfol loes
Dacw Simon o Cyrene
A'i ysgwyddau dan dy groes.

Galw eto Iesu annwyl
Ar dy ymdaith drwy ein gwlad
Yn dy law, a thrwy dy alwad
Dof yn ôl i Dŷ fy Nhaf.

Anfonwyd gan Mrs M G Williams,
Bethel.

DATHLU'R CYFIEITHIAD

Mae Gwasanaeth Llyfrgell
Gwynedd newydd ryddhau rhaglen
dâp sleid yn darlunio'r gwaith a
wnaed yn y 16 ganrif i gael yr
ysgrythurau yn y Gymraeg.
Cyfraniad y Llyfrgell yw hwn tuag
at y dathlu cyffredinol a geir ledled
Cymru eleni; dathlu
pedwarcanmlwyddiant cyfieithu'r
Beibl i'r Gymraeg.

Mae'r rhaglen hon ar gael i'w
benthyg gan unrhyw un, er
enghraifft, unigolyn, dosbarthiadau
neu ysgol.

Gellir cael y sylwebaeth ar dâp
naill yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn
ogystal â chael y sgript yn y ddwy
iaith.

Dylai unrhyw un sy'n dymuno eu
benthyg gysylltu â Llyfrgellydd y
Rhanbarth priodol o Wasanaeth
Llyfrgell Gwynedd: Arfon Dwyfor
(Caernarfon 4121, Est 2462):

GALW DDOE I GOF

(Parhau â phytiau o atgofion Edith Michael, fel y'u llefarodd i'w
merch, Mrs Mem Pritchard).

Gwylltiodd fy chwaer. Coblyn o hogan oedd hi, a mi ddyrnodd y drws ffrynt
nes oedd y cymdogion yn agor ei drysau wrth glywed y stŵr. Toc dyma y
feistres yn agor y drws ac yn 'navy blue' hefo tempwr, a dweud wrthym am
fynd i'r gwely heb damaid o swpar.

Mi oedd fy chwaer wedi gwylltio go iawn rŵan a phan waeddodd yr hen
ddynas gas arna ni i lawr yn ôl i olchi
y llestri budur ar ôl ei swpar nhw,
dyma fy chwaer yn dweud "No
supper, no work", a dyma hi yn cau
drws yr hen stof nwy hefo clep a mi
ddisgynodd y dwrn i ffwrdd. Wel
sôn am rycsions. Chlywsgech chwi
ddim tafod mwy coman erioed na'r
hen ddynas na. Dringais dan grio i fy
llofft, ond wnai fy chwaer ddim
symud o'r gegin ac yn hitio dim am y
stŵr.

Dyma y feistres yn dweud "You
stay here in the dark" a dyma hi yn
dechrau tynnu cadwyn y golau gas
yn araf, a dyma fy chwaer yn tynnu y
gadwyn ochr arall ac yn rhoi y golau
i fyny yn ôl. Mi fuo y ddwy yn
gwneud hyn am tua deg munud, a
finnau yn crefu ar fy chwaer i ddod
i'w gwely. Mi oedd yn rhaid i'r hen
ddynas na smalio bod yn glên hefo
fy chwaer cyn ddaru hi ddod i'w
gwely y noson honno.

Cyflog bach iawn a ninnau yn
gorfod gwneud y llau a'r golchi i
gyd. Dwy lond lein o olchi bob
dydd. Mi oedd yr hogyn hynaf yn

dair oed, ond mi oedd nam meddwl
arno, ac felly mi oedd fel babi.
Roedd fy chwaer yn cael molchi bob
dydd ar ôl cinio i fynd a fo am dro i'r
parc i gael awyr iach, ond mi oedd fy
chwaer wedi cael digon o awyr iach
adra, ac yn ysu i weld y siopau. Bob
dydd cyn cychwyn allan mi oedd hi
yn dysgu yr hen hogyn bach i
ddweud fod o wedi gweld ceffyl a
buech a blodau, achos mi fyddai
fam o yn i holi fo bob dydd.

Weithia mi oedd y dyn llefrith yn
rhoi ŵy bob un i ni i swpar, ac mi
oedd y feistres wedi dechrau amau
ein bod ni yn mynd â rhai o'i hwyau
hi. Dechreuodd yrru yr hen hogyn
bach i lawr i gael swpar hefo ni, ac
wedyn i holi be oedd o wedi gael i
fwyta. Mi oedd ei llygada bach o yn
wan ac mi oedd yn gwisgo sbectols.
Pan oed yn eistedd wrth y bwrdd mi
oedd fy chwaer yn rhoi tipyn o fenyn
ar ei sbectols a rhoi bara llefrith o'i
flaen, ac nid oedd yn gweld ein bod
ni yn cael ŵy bob un. Wedyn rhwbio
ei sbectols yn lân cyn mynd a fo yn ôl
i'w fam. Un arw oedd fy chwaer.

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A
RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

Cofiwch Wyllo

THE TRIPLE NET

Cynhyrchiad

Ffilmiau Bryngwyn

i Channel 4 ac S4C

Darllidir Nos Sadwrn, 28 MAi am 7pm.

nosweithiau Iau 2, 9 ac 16 Mehefin

7pm. am

Cyfres wedi ei hanelu at y Di-gymraeg ond a
fydd o ddiddordeb mawr i Gymry Cymraeg
yn ogystal.

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn, Waunfawr 626.

CYNGOR CYMUNED: Yng nghyfarfod dwetha'r cyngor penderfynwyd gyrru llythyr brys at Gyngor Sir Gwynedd yn beirniadu'r Cyngor Sir yn hallt am eu harafwch i fwrw mlaen a gwella cyffordd beryglus yn y pentref.

Er gwaetha cyfres o gyfarfodydd dros gyfnod o wyth mlynedd cyt-rhwng sywddogion o'r Cyngor Cymuned a Swyddogion y Cyngor Sir mae Cyffordd Lôn Pantywaun a Lôn yr ysgol yn dal heb ei gwella o hyd ac, yn ôl y cyngor, yn beryglus eithriadol i drafnidiaeth.

Cafodd aelod o'r cyngor, Bob Eaglestone, ei longyfarch am gwblhau ras Marathon Llundain.

Mae'r Cyngor am atgoffa pentrefwyr o'r peryglon enbyd i blant pan fo pentrefwyr yn gadael cŵn i redeg yn rhydd yng Ngerddi Bach a Chaeau'r Ganolfan. Caiff arwyddion eu gosod yn y mannau hyn i atgoffa pentrefwyr y gallent gael eu cosbi am adael eu cŵn yn rhydd yno.

Bydd tîm o Waunfawr yn cystadlu mewn gornest yn erbyn pentrefi eraill ar Fedi'r 18fed, yng nghanolfan Hamdden Arfon yng Nghaernarfon.

Mae'r Cyngor hefyd yn awyddus i dderbyn cynigion gan unrhyw un â diddrodeb mewn cynnig pris i drwsio llwybrau troed y pentref.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Dathlodd Cangen Waunfawr o Sefydliad y Merched eu penblwydd Diemwnt gyda chinio wedi ei baratoi gan aelodau'r pwyllgor nos lau 5ed o Fai. Roedd yr aelodau a hen aelodau yn bresennol a hefyd gynrychiolwyr o Ferched y Wawr, Clwb Gwryfai a Changen cyfagos o'r Sefydliad. Tynnwyd lluniau o'r amgylchiad fel cofnodiad o'r dathlu.

Llongyfarchwyd Mrs Ilid Williams gan y llywydd Mrs Pat Parry ar ddo yn Nain. Dymunwyd taith a gwyliau pleserus i Mrs Katie Wynn Jones sydd ar fin ymadael i aros gyda'i merch yn Canada. Llongyfarchwyd y llywydd am fod yn ail yng nghystadleuaeth Gyrrwr y flwyddyn yn y Sir.

Fel arwydd o'n diolchgarwch am fenthgy Festri'r Capel, cyflwynwyd darlun mewn olew o Gapel Croesywaun gan arlunydd lleol Mr Gwilym Hughes i Mr O T Jones un o flaenoriaid y Capel.

Enillydd raffl y mis oedd Mrs Heulwen Hughes, ysgrifenyddes Cangen Merched y Wawr. Mrs Morgan Jones wnaeth y dewisiad.

Mae gwibdaith ddîrgel wedi ei threfnu ar gyfer y mis nesaf. Bydd y bws yn gadael y Festri am chwarter i

saith nos lau Mehefin 2il.

PLAID CYMRU: Daeth cynulliedifa o bump ar hugain ynghyd i'r Institiwt Caernarfon ar 22 Ebrill, i glywed John Elfed Jones, Cadeirydd Dŵr Cymru yn traddodi yn ddifyr am ddyfodol ei Awdurdod o flaen y byggythiad i'w breifateiddio.

Bu'n noson arbennig o werthchweil gyda llawer o weithwyr yr Awdurdod yn cael y cyfle i fynegi eu pryderon a mynnu atebion o flaen ein Haelod Seneddol.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac yn enwedig i Eurig Wyn am gadeirio'r noson mor effeithiol.

CLWB 100: Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am fis Ebrill:

1. Carys Jones, Morawel; 2. D.L. Davies, Nant y Mynydd; 3. Nan Huws Roberts, Bodrida.

TÎM DARTIAU MERCHED: Llongyfarchiadau i dîm dartiau merched Gwesty Snowdonia Park, Waunfawr, am ennill pencampwriaeth Adran 2 o Gynghrair Merched Caernarfon a'r Cylch. Maent i'w gweld yn y llun gyda'u tlysau a'r gwpan.

Llongyfarchiadau hefyd i Angela Williams a Wendy Jones am ennill y gystadleuaeth ddwbl, ac i Angela Williams a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth sengl. Angela hefyd a enillodd y tîws am y chwaraewr gorau yn yr ail adran.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Ebrill:

1. £40 R. Johnstone, Tŷ Gwyn; 2. £25 T.A. Thomas, Gilfach; 3. £10 W.M. Catt, Smithy Garage.

GYRFA CHWIST: Nos Wener Ebrill 29 cynhaliwyd Gyrfa Chwist yn y Ganolfan er budd y Clwb Chwaraeon. Dyma'r enillwyr:

Merched: Mrs Gwyneth Hughes, Llanddeiniolen; 2. Mrs Bet Roberts, Llanberis; 3. Mrs Helen Owen, Penisarwaun; 4. Mrs Eunice Jones, Bethel.

Dynion: 1. Mr Iorwerth Jones, Llanberis; 2. Mr Eurwyn Thomas, Groeslon; 3. Mr Arthur Griffiths, Waunfawr; 4. Mr Meirion Jones, Waunfawr.

Sgôr uchaf hanner yr amser: Mrs Helen Owen, Penisarwaun a Mr Alfie Jones, Waunfawr. Bwbi: Mr Bryan Parry a Mrs Edith Ellis o'r Waunfawr. Enillwyd y raffl gan Mrs Alice Johnstone, Waunfawr.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen leol yn Y Ganolfan nos lau Ebrill 28 pryd y cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mr Glyn Tomos o Dinorwig yn sôn am ei waith fel gweithiwr cymdeithasol.

"BRON Â METHU"



Ffurfiwyd y grŵp canu ysgafn 'Bron â Methu' fis Hydref diwethaf ar gyfer Eisteddfod Ardal Waunfawr. Chwec'h o fechgyn bywiog ydynt, sef Osian Gwynedd ar y sacsoffon a phiano, Gareth Davies, clarinet, Kevin Tame, corned, Meilir Gwynedd, allweddellau a llais, Rhys Siôn ar y drymiau a Rhodri Siôn, y prif leisydd.

Ddechrau mis Mehefin byddant yn teithio i'r Drenwydd ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Yn anffodus ni fydd Gareth yn teithio gyda hwy, ond ein dymuniadau gorau i'r hogiau ar eu hantur.

Diolchwyd iddo gan Mrs Heulwen Hughes. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Catherine Jones a'r enillydd oedd Mrs Joy Glyn. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fai 26. Coluro gyda Karen Thomas, Bodytlak o Gaernarfon.

Y CAPEL: Fore Sul Mai 15ed yng Nghapel Croesywaun derbyniwyd y canlynol yn gyflawn aelodau sef: Sandra Jones, Sian Llwyd, Karen Roberts, Siwan Ellis, Llïon Tegai Iwan, Aeron Wyn Jones, Kevin Roberts ac Euros Wyn.

Yng Nghapel Bethel, Waunfawr yn y gwasanaeth hwyrol derbyniwyd y canlynol yn gyflawn aelodau: Helen Hughes, Nan Wyn, Sian Rowlands, Jason Anderson, Adrian Owen, Wayne Owen, Meirion Williams a Karl Parry.

Cyflwynwyd Y beibl Newydd ar ran yr Eglwys i'r aelodau newydd yn ystod y cyfarfodydd.

LLONGYFARCHIADAU: I'r canlynol ar lwyddo yn eu arholiadau cerddorol:

Obo: Gradd 1, Zoe Gordon, Garnedd Wen (Anrhydedd); Piano: Gradd 1: Marcus Hughes, Gwyn dy (Teilyngdod); Piano Gradd 4: Meilir Gwynedd, Nant (Teilyngdod); Rachel Davies, Nant y Mynydd (Anrhydedd); Gradd 5 - Osian Gwynedd, Nant (Anrhydedd); Clarinet Gradd 3: Rachel Davies, Nant y Mynydd (Anrhydedd);

LLONGYFARCHIADAU hefyd i Keith a Mandy, Ael y Bryn ar enedigaeth merch fach ac i Mr a Mrs R Williams, Bro Waun ar fod yn daid a nain.

i Mr a Mrs Tom Pritchard, Bro Waun ar enedigaeth merch fach, ac i Mrs L Pritchard, Bro Waun ar fod yn nain.

YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Jones, 10 Tref Eilian, sydd unwaith eto yn yr ysbty. Ein dymuniadau gorau iddi am lwyr wellhad buan.

Yr un mor ddifffuant yw ein dymuniadau i Mrs Glyn Williams, Plas Glyn Afon a Mrs Sassie Williams, Bro Waun, sydd bellach adref o'r ysbty.

CLWB GWYRFAL: Ar Ebrill 28 roedd aelodau'r Clwb yn falch iawn o'r cyfle i gyfarfod yr heddwas O. Thomas. Croeswyd y teulu a'u llongyfarch ar enedigaeth eu mab bach Owain. Dymunwyd pob hapusrwydd iddynt ar eu cyfnod yn y Waunfawr.

Cafwyd sgwrs ddefnyddiol iawn gan Mr Thomas ar y gofal i'w gymryd ar bob achlysur, a diolchwyd iddo yn gynnes gan Dr. Miles.

Cynhaliwyd Noson Goffi yn y Ganolfan nos Wener Mai 13, yr elw ar dreuliau'r Clwb. Diolch i waith caled gan yr aelodau a'r gefnogaeth gan y cyhoedd roedd yn llwyddiant mawr.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i Antur Waunfawr ac i'r gymuned am eu cymorth. Hefyd am bob cyfraniad ariannol i'r stondinau.

APÊL EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990:

Ar Nos Wener Ebrill 15 cafwyd cyngerdd llwyddiannus iawn yn y Ganolfan - diolch i bawb a gymerodd ran yno.

Mae'r Apêl ar hyn o bryd yn sefyll ar ychydig tros £1,000. Y dyddiad nesaf i chwi gofio yw nos Wener Mehefin 17 - noson i'r teulu cyfan fynd ar Helfa Drysor yn y car gyda byr bryd wedi ei drefnu ar y diwedd.

Y tâl fydd 50c i oedolion a 25c i blant - cychwynir o'r Ganolfan o 6 o'r gloch hyd 7 o'r gloch. Enwau ac arian erbyn Mehefin 10 i Gareth (392), Don (588) neu Haydn (626).

Noson arall i roi yn y dyddiadur yw Nos Wener Gorffennaf 15 - Swper Awyr Agored - manylion pellach yn nes ymlaen.

**MAE'R ECO ANGEN
TREFNYDD PLYGU
AM FANYLION
CYSYLLTWCH AG UNRHYW
UN O'R GOLYGYDDION**

**CARPEDI
GLÂN!**

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

**TEGID
PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi**

PENCAMPWYR DARTIAU ADRAN 2



CWRS CYMRAEG DINORWIG LLWYDDIANT YSGUBOL

gan Sylvia Prys Jones

Yn ystod y flwyddyn 1985-86 bu nifer o famau ifainc yn cyfarfod yn rheolaidd yn y Ganolfan Gymunedol yn Ninorwig mewn grŵp Mam a'i Phlentyn. Roedd y mwyafrif o'r rheiny'n Saeson a byddai un o athrawesau ail iaith y Mudiad Ysgolion Meithrin, Mrs Lesley Conran, yn ymweld â'r grŵp yn rheolaidd i hybu Cymraeg y plantos bach. Yn ystod y cyfnod hwnnw daeth yn amlwg iddi fod gan y mamau hwythau awydd mawr i ddysgu Cymraeg, ond sut roedd modd iddynt wneud hynny a hwythau'n gaeth i alwadau pedair awr ar hugain eu plant bach?

Yn raddol cafodd Lesley y syniad o redeg cwrs Wpan i'r mamau ifainc hynny, ynghyd â meithrinfa i'r plant. Dyma'r tro cyntaf, bron, i hyn ddiwydd yng Ngwynedd, ac mae'r diolch yn bennaf i Lesley am ei gwaith yn arloesi'r syniad a gwneud y trefniadau.

Dechreuodd y cwrs yn niwedd Medi 1986 o dan nawdd Adran Efrydiau Allanol y Brifysgol. Cynhelid dwy wers yr wythnos, o 9.30 y bore tan hanner dydd, gyda dwy athrawes, Lesley a minnau. Roedd dau ddeg tri o fyfyrwyr wedi cofrestru ar y cwrs, y mwyafrif yn famau â phlant bach, a pharhaodd y nifer yma'n gyson trwy'r flwyddyn gyntaf. Golygai hynny fod y feithrinfa'n bur llawn: deuai tua phymtheg o blant bob wythnos, ac roedd yn waith caled i'r gweinyddesau, Mrs Carol Jones a Mrs Miriam Lewis, gan fod oedran y plant yn amrywio'n fawr o fabis ychydig fisoedd oed yr oedd yn rhaid eu bwydo a'u magu, i blant dwy a thair oed roedd angen eu diddori a'u haddysgu trwy gydol y sesiwn. Ond llwyddasant yn rhyfeddol, a golygai hynny fod y mamau'n cael llonydd i ganolbwyntio ar y dasg o ddysgu, er deuai cais i ambell un fynd i newid clwt neu fynd â phhlentyn stranclyd i'r lle chwech! Yn ddiweddarach pan aeth Mrs Carol Jones i ofalu am Ysgol Feithrin Deiniolen, ysgwyddodd Mrs Miriam Lewis hithau'r prif gyfrifoldeb am y feithrinfa. Rhaid diolch iddynt ill dwy am eu gwaith da, a hefyd i Mrs Buddug Thomas fu'n cynorthwyo am ddau dymor llynedd.

Parhaodd y dosbarth i gyfarfod ddwywaith yr wythnos trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, ac yna unwaith yr wythnos trwy'r flwyddyn hon i baratoi at lefel O. Rhaid canmol y dysgwyr i gyd am eu brwdfrydedd a'u dyfalbarhad. Nid gwaith hawdd yw ymroi i ddysgu'r Gymraeg yng nghanol cyfrifoldebau tŷ a theulu, ond maen nhw wedi gweithio'n eithriadol o galed. Mae tair o'r mamau, er enghraifft, wedi cael babis ers dechrau'r cwrs, ac wedi dychwelyd ymhen ychydig wythnosau gan ddod â'r newydd anedig i ymuno â phlant y feithrinfa.

Yn ogystal â hynny maen nhw wedi gwneud ymdrech arbennig i ymdoddi i'r gymdeithas leol. Mae'n arferiad gennym ni'r Cymry i feirniadu Saeson dŵad, a chyda chryn gyfiawnhad. Mae'r mewnlifiad o estroniaid yn gwanhau ein cymdeithas Gymraeg naturiol ac mae dyfodiad eu plant yn rhoi straen ar adnoddau ein hysgolion. Wedi dweud hynny, mae llawer ohonynt yn dod i ymgyrtrefu'n barhaol yn ein plith, er gwell neu er gwaeth, a rhaid i ni wneud y gorau o hynny. Ac mae hyn yn cynnwys rhoi pob croeso i'r rhai ohonynt sydd o ddifri calon am fod yn rhan o'r gymdeithas leol, gan ymdrechu i ddysgu'n hiaith. Diolch i bentrefwyr

Dinorwig a Deiniolen am weld fod y dysgwyr hyn o ddifri calon ac am roi pob cefnogaeth a chwarae teg iddynt, gan ofalu siarad Cymraeg efo nhw ar bob achlysur a chan eu tynnu i mewn i bob math o weithgaredd lleol.

Diwedd y gân yw'r geiniog, medden nhw, ac mae hyn cyn wired yn Ninorwig ag yw yn unman arall. Yn ystod y ddwy flynedd diwetha bu'n rhaid i aelodau'r dosbarth dyrchu'n ddwfn i'w pocedi i dalu ffioedd y cwrs - nid bod y cyrsiau'n ddrud, rhaid ychwanegu! Mae'r Adran Efrydiau Allanol yn gwneud pob ymdrech i gadw eu cyrsiau'n rhesymol, ond pan fo rhywun yn magu teulu ifanc mae pob gwariant ychwanegol yn faich. Ar ben hyn bu'n rhaid chwilio am arian i gynnal y feithrinfa. Diolch i Carol, Miriam a Buddug am eu gwaith dygn yn ystod y ddwy flynedd diwetha, a hynny am dâl bychan iawn. Diolch hefyd i'r rheiny sy wedi rhoi'n hael o'u hamser am ddim, yn enwedig Mrs Brown a Mrs Nest Tudur. Buom ni'n ffodus iawn o'u cefnogaeth i gyd.

Serch hynny bu'n ymdrech i hel y pres i ariannu'r feithrinfa, ac rydyn ni'n ddiolchgar iawn unigolion a chymdeithasau sy wedi cyfrannu'n hael tuag ati; rhaid enwi Cangen Merched y Wawr Llanrug a hefyd Cyngor Cymuned Dinorwig, a holl bentrefwyr Dinorwig a Deiniolen sy wedi cenfogi'r cwrs. Bu'n rhaid cynnal nifer o weithgareddau i godi arian dros y ddwy flynedd: dydd Sadwrn nesa (Mai 21) bwriadwn gael taith gerdded efo'r plant bach o Ddinorwig i Ddeiniolen ac unwaith eto bu pobl yn gadarn eu cefnogaeth.

Eleni, mae Lesley Conran wedi cychwyn cwrs arall gyda meithrinfa ym Methesda; yr un yw'r brwdfrydedd a'r ymroddiad yn fan'no, a'r un yw'r anawsterau ariannol. Y sôn yw y bydd mwy o gyrsiau gyda meithrinfeidd yn cychwyn yn y dyfodol agos. Tybed fydd un ohonynt yn eich pentref chi? Tybed wnech chi ei gefnogi? Da chi, cofiwch mai'r teuluoedd ifainc hyn ydy'r rhai pwysica i'w hennill i'r iaith. Eisoes mae rhai o ddysgwyr Dinorwig yn siarad Cymraeg â'u plant. Dyma'r gobaith mwya ar gyfer y dyfodol. Gall fod y rhieni'n Saeson, ond mi fedrwn ni geisio sicrhau y bydd eu plant yn Gymry pur.

AR WERTH

Par o sgidiau rowlio. Mewn
cyflwr da iawn
Maint 2

Pris i'w drafod
Ffôn: C'fon 3515

DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

Y GYMDEITHAS: Os am weld sut mae'r naill dymor yn asio i'r llall rhaid rhoi sylw arbennig i fywyd cymdeithasol yr ardal honno. Mae'r gweithgarwch hwn i'w weld yn fwyaf eglur yng nghyrrddau cymdeithas ddiwylliadol yr ardal honno. Er i ni feddwl ar yr olwg gyntaf nad oes perthynas o gwbl rhwng y naill dymor a'r llall, eto i gyd fe welir rhyw llynyn arian yn cyflawni gwyrrth y cyd-gysylltiadau. Fe geir eco o'r hyn a wnaed mewn tymhorau blaenorol yn cael ei ateb mewn tymor neu dynhorau dilynol - a hyn wedi'r cyfan sy'n rhoi pwrpas arbennig i fodolaeth cymdeithas o'r fath. Edrychir yn ôl i'r gorffennol, ond yn bwysicach fyth edrychir ymlaen yn ffyddiog i'r dyfodol.

Fe ddaeth tymor Mrs Beti Lloyd Roberts i ben, ac fe ddewiswyd ysgrifennydd newydd ar gyfer y tymor nesaf, Mrs Medwen Griffith, Foel Cottage a ymgymerodd â'r gwaith arbennig yma. Fe fu Miss Marian Jones yn gofalu am gyllid y gymdeithas ers rhai blynedd oedd bellach, a'r teimlad cyffredinol oedd mai gwell oedd peidio gyrru'r arian o 'law i law' ac felly fe ofynnwyd i'r chwaer gario ymlaen â'r gwaith. Fe etholwyd y Parch Ifor Lloyd Williams, BA Bangor yn Llywydd anrhydeddus, ac yna ethol llywyddion ar gyfer y cyrrddau gwahanol. Pe byddai angen pwyllgor brys, er hynny fe ddichon y byddai llywydd lleol yn fuddiol i lywio'r pwyllgorau hyn ac i gynorthwyo ysgrifennydd y tymor.

DIOLCH: Dymuna Lizzie a David Jones, Bron Myfyr ddiolch o galon i'w holl deulu a'u cymdogion am yr holl gardiau blodau a rhoddiaon a dderbyniasant ar achlysur eu priodas ddiemwnt ar Ebrill 11eg.

GŴYL BREGETHU: Ar ddydd Sul Mai 22ain - sef y Sulgwyn fe ddethlir yr Ŵyl yn Sardis (B) â Gŵyl Bregethu a'r cennad arbennig eleni yw'r Parchg. T.R. Jones, Eglwyswrrw, Ceredigion. Mae cyfeillion o bob enwad yn edrych ymlaen yn ddisgwyllgar at y cyrrddau hyn, ac fe fydd y cyfan drosodd cyn yr ymddengys hyn o eiriau mewn print.

A minnau'n sôn am gyrddau Sulgwyn Sardis chwith i ni yw cofnodi marwolaeth Miss Kathleen Jones, Crown, Clwt y bont. Mae perthnasau i'r diweddar chwaer yma yn Sardis, ac fe fu'r ymadawedig yn hynod ffyddlon i Wyl Bregethu Sardis ar hyd y blynedd oedd, ac yn dod a'i chyfraniad ariannol i'r Ŵyl yn flynyddol. Fe ddichon y bydd gohebydd Deiniolen yn cyfeirio at ei marwolaeth yn gystal ac yn sôn am ei chysylltiad â Canteen Ysgol Gwaen Gynfi.

CWRS Y TYMHORAU: Mae'r Gog i'w chlywed y dyddiau hyn, ond byr yw ei thymor, yn arbennig felly pan yw'r tymor presennol wedi bod yn araf yn datblygu. Serch hynny mae'r tymheredd wedi codi'n rhyw sydyn braidd, ond erys pridd y gerddi yn hynod sychlyd gan na chawsom law gwerth sôn amdano ers nifer o ddyddiau bellach. Gresyn fod tywydd fel hyn mor flinderus i'r corff. Misoedd Mehefin a Gorffennaf fel rheol yw'r adeg y teimlwn anterth gwres yr haul.

Fe ddaw gwres a glaw yn ei bryd, er i ni feddwl bod eu hamser yn groes i'n disgwyliadau ni. 'Rwyn creduer hynny na fyddai llawer o drefn ar bethau pe byddem ni yn rheoli cwrs y tymhorau. Nid bob amser y ceid yr hyn a fyddai'n ffafriol i ni yn dderbyniol gan bobl eraill gyda'u bwriadau gwahanol.

HWYL HAF: Gyda'r diwrnod mawr ond dros fis o amser i ffwrdd dyma'r

manyliion diweddaraf am y trefniadau. Bydd y gweithgareddau yn cychwyn am 1.00 ac yna yn mynd ymlaen tan bump o'r gloch y prynhawn. Trefnir y cystadlaethau yn bennaf ar gyfer y plant er y bydd cyfle i'r oedolion ddangos eu dawn mewn ambell i gystadleuaeth. Bydd gofyn i bawb sydd yn bwriadu cystadlu, gofrestru rhwng 1.00 a 1.30 er mwyn i'r trefnwyr gael gwybod faint yn union o blant sydd yn bwriadu ymuno yn yr hwyl. Yna bydd pawb yn cael eu grwpio yn ôl eu hoedran a byddant yn cystadlu fel timau. Dyma restr o'r cystadlaethau:

I blant o dan 5 oed yn unig: Gwisg Ffansi.

I blant o bob oed: Râs lluchio dŵr; Râs Wellingtons (yn llawn o ddŵr); Ymladd clustogau; Râs Beics; Râs ŵy ar lwy; Taflu Wellingtons; Oedolion: Râs Newid dillad; Ras babi mewn berfa;

Yn naturiol bydd y pwyslais mwya ar gael digon o hwyl fel bod pawb yn mwynhau eu hunain. Y gobaith yw y bydd carafan yr Urdd ar gael gennym i werthu diodydd ysgafn a bwyd fel cŵn poeth ac ati. Codir tâl myndediad o £1 ar oedolion a bydd y plant yn cael ymuno yn yr hwyl am ddim. Felly cofiwch y dyddiad (rhag ofn bod rhai ohonoch ddim yn cofio) pnawn Sadwrn - Gorffennaf 9fed o 1.00 ymlaen.

PEN GALLT Y FOEL: Yn ôl y wybodaeth a dderbyniodd y Cynghorydd Glyn Tomos oddi wrth Adran Brifffyrdd a Thrafnidiaeth y Cyngor Sir yn ddiweddar byw mewn gobaith y maent y bydd eu sefyllfa ariannol yn galluogi iddynt wella cornel Pen Galt y Foel yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol (sef 1988-89). Mae gwir angen gwella y gornel beryglus hon a gobaith y cynghorydd lleol yw y byddwn yn gweld y sefyllfa yn cael sylw eleni.

Diolch i bawb gan Sarah Anderson

(un o ddysgwyr Dinorwig)

Mi hoffwn i ddweud diolch wrth bawb yn Ninorwig a Deiniolen am ein cefnogi ni tra dan ni wedi bod yn dysgu Cymraeg. Dach chi wedi ein helpu ni i godi arian i dalu Miriam Lewis i warchod y plant tra dan ni wedi bod yn dysgu Cymraeg, ac dach chi wedi ein helpu ni i ddechrau siarad Cymraeg. Heb eich cefnogaeth chi fydden ni ddim wedi medru cael dosbarth neu drio dysgu Cymraeg o gwbl. Diolch yn fawr i bawb ohonoch chi am eich cefnogaeth chi.

CEUNANT

Gohebydd: Ifan Parry, Morwel
(Waunfawr 321)

LLONGYFARCHIADAU i Richard Ellis Owen. Gilwern, Llanwnda, gynt o Bryn-y-Maen, Ceunant, ar ennill ohono radd M. Add (Seicoleg) ym Mhrifysgol Birmingham.

Cyn ddisgybl Ysgol Bryn'Refail Llanrug yw Richard, a chanddo radd gydag Anrhydedd yn y Gyfraith, ac wedi ymchwil yn y maes addysg, radd M.A. Prifysgol Cymru, Aberystwyth.

Ein dymuniadau gorau iddo yn ei swydd bresennol, - yn Seicolegydd Addysgol yng ngwasanaeth Awdurdod Addysg Cyngor Sir Gwynedd.

TÎM HOCI – 1924

Ar gais Mrs Jones, Dalar Deg y gyrraf yr isod – o ddiddordeb i leiafrif bach erbyn hyn mae'n siwr.

Dyma aelodau'r Tîm fel y'u cefais ganddi hi:

(O'r chwith i'r dde, rhes gefn): Ethel Wyn Jones, Irene Beavan Jones, Eluned Roberts, Violet Griffith, Dorothy Hughes.

(Rhes flaen): Beti Roberts, Annie Williams, Alwen Pritchard (Capten), Ciss Hughes, Katie Roberts, Lizzie Hughes, a'r athrawes: Miss Margaret Evans, M.A.

Ohonynt, gwyddom fod chwech wedi marw (dim gwybodaeth am Ethel Wyn Jones). Pedair yn fyw a sbriws: Dorothy Hughes (Mrs Dorothy Jones) o Ddinorwig, bellach yn cartrefu yn Llanrug; Annie Williams (Mrs Inigo Jones) o Lanrug; Katie Roberts (Mrs Katie Thomas) o'r Cwm, yn byw yng Nghaernarfon a Lizzie Hughes, o'r Cwm.

Ar bedair o'r ymadawedig y gallwn roi nodyn: Alwen Pritchard o Lanberis (Mrs Alwen Harris Hughes) merch y diweddar Barch John Pritchard, awdur y gyfrol gyfoethog ar hanes yr ysgol hyd 1939 – bu hi farw yn gymharol gyfamserol yng Nghaerdydd. Ciss Hughes o Ddeiniolen (Mrs Ciss Griffith) gwraig fferm yng Ngharmel am flynyddoedd cyn dod i Gaernarfon i fwrw'i gweddwdod – bu farw ryw dair blynedd yn ôl. Beti Roberts, 'Beti Cwm' (Mrs Beti Evans) y hi a'i phriod yn geidwaid Tŷ Capel Seilo, Caernarfon am flynyddoedd – bu farw ar drothwy Nadolig '87. Irene Beavan Jones (Mrs Dobbins?) a fu farw yn y Rhyl, fis Chwefror eleni.

Mae'r athrawes, yn byw ym Mhenygroes (Mrs R.W. Williams) mor ddeallus effro i helyntion y byd o'i chwmpas a thu hwnt ag y bu erioed – wedi pasio ei naw deg.

Rŵan – am yr ysgol. Un Ysgol Uwch a godwyd yn y cylch yn nyddiau pell y ras am Ysgolion Sir yn Arfon, ond cariai hon ddau enw. Ei henw swyddogol, uwchben rhestrau'r Sgolarship, Canlyniadau'r Arholiadau Allanol a phob gohebiaeth gyhoeddus oedd "Ysgol Sir Dosbarth Llanberis", ar bapur yn Saesneg gan amlaf – y "LL.D.C.S." Ond yr enw cynnes blaen-tafod bob dydd oedd "Ysgol Brynrefail". O gylch y ddau enw mae eco'r sgarmes a ddisgrifir mor fanwl ddiddorol ym mhennod Mr Pritchard "Brwydr y Safle".

Dengys i'r Ymgyrch am yr yschol gychwyn tua 1893 "Ymgyrch Cylch Llanberis" y'i gelwid, a 'run o'r pentrefi eraill yn codi eu cloch ynghylch y teitl. Cynrychiolwyr y gwahanol bentrefi yn pwyllgora a

chyd-weithio'n hapus am dair blynedd. Erbyn 1896, roedd y breuddwyd am ysgol yn nes i'w wireddu, a chododd pwn pwysig y tir i'w hadeiladu arno. Daeth haelioni Sgweiar y Faenol i ysgafnhau un baich ariannol mawr – addawodd dair acer o dir iddynt yn rhad ac am ddim, Ond – gadael i'r Cynrychiolwyr ddewis eu tair acer.

A chododd storm ac ymrannu – fel dau dîm fwtbol, fel hyn: Llanberis v Llanddeiniolen, Llanrug a'r pentrefi llai, fel Penisarwaun, Deiniolen a Nant Peris. Doedd Llanrug na Llanddeiniolen ddim yn hawlio'r ysgol i'w pentrefi hwy, ond – yn Llanberis? Never in Europe! Eithr roedd cynrychiolwyr Llanberis yn lled gymryd yn ganiataol mai yno y'i codid. Onid criw y pentref oedd ar y ffrynt o'r cychwyn? Rhai o'r Gynau Mawr yno wedi holi am bris tebygol Gwesty'r Castell (y Castle Hotel) oedd ar werth ar y pryd – i'w addasu a'i ehangu?

Yn ôl un dystiolaeth, medd Mr Pritchard, cododd pleidwyr yr ysgol ym mhlwyf Llanddeiniolen eu fflag i fyny drwy gyhoeddi na chai eu plant hwy groesi pont Penllyn i fynd i'r ysgol, a Llanrug yn eu helpu i'w dal i fyny. Wedi dwy flynedd o gecru tawelwyd y storm fel pe na buasai, pan basiwyd penderfyniad – dim sôn am unfrydedd – gan gynrychiolwyr yr holl bentrefi yn Ionawr 1898, a Mr Pritchard yn lled gredu mai'r pentrefi llai a drodd y fantorl – fod yr ysgol i'w chodi "ar y cae bron gyferbyn â chapel Brynrefail". Felly y colodd Llanberis frwydr y safle, ond cadw'i urddas yn yr enw swyddogol – y "LL.D.C.S." – a gofias wedi'i frodio'n gywain ar bocedi blazers y ffodusion a feddai rai.

Felly y buom ni, genedlaethau ohonom, yn blant y breintiau, yn derbyn ein haddysg yn y pentra bach (tawel bryd hynny) a alwyd yn "flodyn Arfon" a'r cowlad gwlad o'i gwmpas yn libart ddiderfyn i blant i rafio drwyddi. Hir lafurio'r hen bobol gynt drwy storm a chymod – bellach yn ddim ond eira llynedd.

O YSGOL BRYNREFAIL – ETO Tŷ GWYRFAI 1943-44



Anfonwyd y llun uchod gan Elwyn Jones, Fron, 30 Beeroft Way, Dunstable (gynt o'r Fron, Lanrug). Mae'n dangos aelodau o dŷ Gwyrfa, Ysgol Brynrefail 1943-44. Yn amlwg, mae'r tŷ wedi bod yn fuddugol mewn amryw o gystadlaethau - mae pedwar cwpan yn cael eu harddangos. Ond beth oedd yr achlysur? Pwy all anfon gwybodaeth – ac enwau'r aelodau?

CYFRIFIADURON AT EICH DEFNYDD CHI A MINNAU

Mae'r cyfrifiadur BBC hwn ar gael i'w ddefnyddio gan y cyhoedd yn rhad ac am ddim yn Llyfrgell Arfon-Dwyfor, Caernarfon.

Gallwch ei ddefnyddio:

I ddilyn Cwrs Ymgyfarwyddo byr â chyfrifiadur

I roi cynnig ar Brosesu Geiriau

I ganfod beth yw Taenlen a sut mae hi'n gweithio

I arbrofi a chwilio Databas

I holi am wybodaeth Data Iechyd Prestel

I ganfod mwy am Wasanaethau Llyfrgell

I edrych ar Raglenni arddagnos

I roi cynnig ar raglenni Addysgol sydd ar gael i Ysgolion Cynradd.

Beth sy'n digwydd?

Defnyddir cyfrifiaduron mewn amrywiaeth gynyddol o ffyrdd sy'n effeithio ar ein bywydau bob-dydd.

Drwy ddarparu enghreifftiau o raglenni Busnes, rhaglenni Gwybodaeth, rhaglenni Addysgiadol mae Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd yn rhoi'r cyfle i chi gael profiad uniongyrchol o sut y gellir defnyddio cyfrifiadur i ddibenion difrifol ac ymarferol.

Dysgu eich hun

Yn union fel pe baech chi wedi prynu'r cyfrifiadur eich hun, mi fydd arnoch angen eich dysgu eich hun gan ddefnyddio'r pecyn **Dysgu eich hun** byr sydd wedi ei baratoi er mwyn i chi gael ei ddefnyddio.

Yn anffodus nid oes gan staff y llyfrgell amser i roi cyfarwyddyd cyfrifiadur, ond maent yn barod i'ch helpu os gwnewch gawl o bethau!

Os gwelwch fod gennych ddiddordeb mawr yna fe ddylech ymaelodi â chws

hyfforddiant go iawn.

Sut i gael tro

Gellir llogi'r cyfrifiadur o flaen llaw am gyfnodau o awr – Goffynnwch wrth gownter y llyfrgell os hoffech ei ddefnyddio.

Eich cyfle i arbrofi

Os ydych am arbrofi ymhellach na'r enghreifftiau a roddir yn y pecyn **Dysgu eich hunan** – gwnewch hynny ar bob cyfrif.

Yn union fel petai'r offer gennych chi gartref, mi fydd angen i chi ddysgu mwy am y rhaglenni a'r hyn y gallent ei wneud drwy ddarllen y llawlyfrau.

Mae copïau o'r llawlyfrau hyn ar gael i'w benthycu, a gallwch ddyfeisio'ch arbrofion eich hunain er mwyn cael tro arnynt.

Disgiau cyfrifiadur ar werth

Gallwch brynu disg cyfrifiadur o gownter y llyfrgell am £2.50 os hoffech gadw eich gwaith at eto.

Mae gennym lyfrau hefyd

Mae gan y llyfrgell lyfrau ar gyfrifiaduron ac efallai yr hoffech eu benthycu – gofynnwch i staff y llyfrgell am restr o'r hyn sydd ar gael.

Rhaglenni Addysgol

Mae rhestr ar gael o'r meddalwedd Addysgol a ddefnyddir yn ysgolion cynradd y Sir.

Mae'r meddalwedd yma yn naturiol yn cael ei ddefnyddio mewn ysgolion cynradd, ond os hoffech gael tro ar rai o'r rhaglenni er mwyn gweld beth mae eich plant neu eich wyrion efallai yn ei ddefnyddio, yna gellir gofyn am raglenni oddi ar y rhestr.

SIMNEIAU GWael? CRACIAU? MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?

Cysylltwch â Dave Wood


'INSULAFUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:
Y FELINHELI 670556



PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol



**BECWS
DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn:
LLANBERIS 870232
BARA FFRES A
THEISENNAU BLASUS
Hefyd gwerthwyr
CALOR GAS

Dysgwch yrru'r car gydag

**Y.Y.O.
YSGOL YRRU
OFALUS**

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol



PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112
Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

**GWILYM H.
WILLIAMS**
BRYN DAIRY
2 BRYNHYFRYD
BETHEL

Ffôn
Port Dinorwig 670786



Llefyrth
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau

**Wavell
Roberts**
CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR

E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

**OSMOND SHAW
DEINIOLEN**

Gwerthu
a Thrwsio
Teledu Lliw Newydd
ac Fel Newydd
GWASANAETH
FFON 24AWR
LLANBERIS 870545

**GERAINT
OWEN**

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR
Ffôn:
Waunfawr 552



CARTREF YR HENOED
CARTREF NEWYDD COFRESTREDIG
AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG
CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN
THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS
Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon
(0286) 4652

Un o gartrefi brafia'r fro
CARTREF PRESWYL HENOED



**BRON
ERYRI**
LLANBERIS, Ffôn:
870142 neu 870391

PERCHENNOG
MRS. EIRIAN MALI S.R.N.

- Stafelloedd sengl a dwbl
 - Gofal 24 awr
 - Gwres canolog trwy'r adeilad
 - Yr holl staff yn siarad Cymraeg
 - Golygfa hardd
 - Liffd at bob stafell sy' ddim ar y llawr gwaelod
 - Rhagofalon tân priodol
 - Lolfa teledu lliw
 - Pwyntiau teledu ym mwyafrif y lloffttydd
 - Bath-medic
- Cofrestrwyd gan Adran Gwasanaethau
Cymdeithasol Gwynedd

**SELWYN
MORRIS**

Adeiladwr a Threfnydd
Angladdau

LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 2841

CHWARAEON

PÊLDROED

Mae Clwb Pêldroed Llanberis wedi hen arfer â llwyddiant, ond does dadl mai'r tymor a ddaeth i ben y mis yma fu'r gorau erioed yn eu hanes.

Er mai ail oedd eu safle yn y Gynghrair (gan godi tarian George Lovatt) hwy aeth a Chwpan y Gynghrair gan guro Bro Goronwy ar yr Ofal o 4 gôl i 1. R. John Williams, Gwyndaf Jones, Emlyn Davies ac Ivan Evans yn sgorio. Yn y llun isod fe'u gwelir pob un a'i darian ei hun a'r Capten Glyn Griffiths yn gafael yn dynn yn y Cwpan.



Nos Lun, oedd hi a dyna ail dlws y tymor yn y bag. Nos Fercher, a Pharc Meurig Bethesda oedd llwyfan eu gêm bwysicaf erioed, mae'n debyg. Wythnos yn gynharach bu'n rhaid iddynt chwarae'n wych i guro Treffynnon yn rownd gynderfynol y Cwpan Barrit yn Llanrwst, ond y ffeinal oedd hon, a Philkington y gwrthwynebwyr.

Ar bapur gellid dadlau nad oedd hawl gan y Darrans i fod yn agos i ffeinal y Cwpan yma gan fod holl dimau Cynghreiriau gorau'r Gogledd a'r canoldir a'u llygaid arni.

Dwy gôl yr un oedd y sgôr ar ddiwedd yr awr a hanner gydag Emlyn Roberts i Lanber a Selwyn Morris o Bilkington yn sgorio goliau bythgofiadwy. Methwyd a setlo pethau yn yr hanner awr ychwanegol, a thrwy guro'r cicio o'r sbotyn o 5 gôl i 4 y daeth y Cwpan i feddiant Llanberis am flwyddyn. Gweler isod y Capten a'r Rheolwr, Iwan Williams yn dangos y tlws i'w cefnogwyr.



PYSGOTA

Peth anghyffredin yw dweud yr adeg yma o'r flwyddyn fod prinder dŵr yn yr afonydd wedi dod a physgota bron i ben. Yn y rhedfeydd dyfnaf y ceir yr unig le i daflu'r bluen a chyndyn iawn yw y brithyll o fachu ac eithrio wrth gwrs am rhyw ychydig amser y nhywyll nos.

Mae llawer o hwyli i'w gael ar y llynnoedd er hynny, gyda Phadarn hyd at yr ugeinfed o Fai yn 'sgota'n eithriadol o'r glannau fel y gwelwyd yn y darlun yn Eco'r mis diwethaf. Hefyd ers rhyw wythnos dechreuodd y codi fin nos er nad yw'n parhau ond am rhyw hanner awr, mae'n amser prysur iawn gyda physgod hyd at y pwys yn dod i'r bluen. Daliwyd rhai y noson o'r blaen, roeddynt yn torri yn goch ac yn gwneud pryd bendigedig.

Prynhawn Sul, 15ed o Fai fe gynhaliwyd cystadlueth flynyddol gweinweirwyr Gwynedd ar Lyn Cwellyn. Tîm y gymdeithas fu'n fuddugol a hynny o gryn dipyn. Y tîm oedd Oscar Evans, Bethel, Alwyn Morris Ceunant, Howard Jones, Caernarfon a Harry Wyn Owen, Talysarn. Mae Harry hefyd yn nhim Rhyngwladol Cymru fydd yn sgota ar Lough Conn Iwerddon.

Ddydd Mawrth 17eg o Fai, gwelwyd Ynadon Caernarfon yn cael pedwar gŵr o Fanceinion yn euog o ganwio ar yr Afon Seiont ar y 6ed Rhagfyr 1987 gyda'r bwriad o aflonyddu ar eogiaid yn claddu. Fe'u dirwywyd o £200 gyda £148 o gostau yr un. Dywedant eu bod am apelio yn erbyn y ddeddfryd.

Mae ychydig o Sewin yn y llanw yng Nghaernarfon a chyda tipyn o law fe ddisgwylir iddynt symud. Y tymor diwethaf yn nechrau Mehefin y daliwyd y rhai mwyaf, rhai dros chwe phwys, felly crefu am rhyw ddau ddiwrnod gwylyb mae holl 'sgotwrs yr ardal.

Tymor ardderchog a llongyfarchiadau calonnog i dîm cyntaf y Darrans. Daeth eu hail dîm yn agos i ennill tlws hefyd, gan golli yn ffeinal y Cwpan Moorings yng Nghaernarfon yn erbyn Bontnewydd.

Agos hefyd fu hanes y ddau dîm yn Llanrug, colli yn y ffeinal wnaeth yr ail dîm yng Nghwpan Wil Evans yn erbyn Caernarfon Borough ar gae Dyffryn Nantlle, ac fe fethodd y tîm cyntaf a threchgu Bro Goronwy yn rownd Gyn-Deryfnol Cwpan y Gynghrair.

Daeth llwyddiant er hynny i dîm dan 12 oed y pentref, gan iddynt godi'r Cwpan Gwyrfa'i y Sadwrn diwethaf yn erbyn Segontium Rangers o 4 gôl i 0. Fe sgoriodd Raphael Ginsberg dair a Jonathan Davies y llall.

Gweler isod lun Aled Roberts, y Capten yn chwifio'r tlws uwch ei ben, ac oddi tano yr holl garfan gyda'u rheolwr, Mr Dafydd Arfon Jones.

Mae'r tîm dan 14 oed, hwythau yn rownd derfynol eu cwpan a gobeithiwn adrodd am eu llwyddiant yn rhifyn nesaf yr Eco.



Neiniau Pwy?

Fe gofiwch i mi gynnwys y llun isod ar y dudalen ôl y mis diwethaf o dan y teitl uchod. Wel, chês i mo'r wybodaeth ynglŷn â neiniau pwy, ond y mae Mrs Alice Thomas o Benisarwaun wedi eu henwi wrthyf.

Yn y rhes gefn mae Ethel Wyn Jones, Irene Bevan Jones, Eluned Roberts, Violet Griffiths a Dorothy

Hughes.

Yn y blaen: Beti Roberts, Annie Jones, Alwen Pritchard, Ciss Hughes, Katie Roberts a Lizzy Hughes, Miss Maggie Evans oedd yr Athrawes.

Diolch o galon Mrs Thomas am eich ymateb. (gweler hefyd erthygl tudalen 18)



CYFARFOD ATHLETAU YSGOLION ARFON YM MANGOR DYDD MAWRTH MAI 10fed

Bu nifer o ddisgyblion yn cystadlu yn y cyfarfod yma. Fe fydd pawb a ddaeth yn 1af neu'n 2il yn mynd ymlaen i gystadlu yng Nghyfarfod Athletau Ysgolion Gwynedd ar y 18fed o Fehefin. Dyma enwau y rhai a wnaeth orau.

Michelle Thornton - 1af Disgen a Naid Hir - Genethod hŷn
Linda Prydderch - 1af Picell - Genethod Iau
Kelvin Houston - 1af Naid Driphlyg, 2il 400m - Bechgyn Iau
Aled Griffiths - 1af 200m - Bechgyn Iau
Raphael Ginsberg - 1af Picell - Bechgyn dosbarth 1
Glenys Jones - 2il Pwysau - Genethod Iau
Michael Jones - 2il Naid Hir a Naid Driphlyg - Bechgyn Dosbarth 1
Jonathan Williams - 2il Pwysau a Disgen, 3ydd 100m - Bechgyn Iau
Carolyn Jones - 2il Pwysau - Genethod dan 17eg
Dafydd M Jones - 2il Naid Uchel - Bechgyn Hŷn
Nicola Houston - 3ydd Picell a Naid Hir - Genethod Dosbarth 1
Gwynant Maxwell - 3ydd Picell - Bechgyn Iau
Ras Gyfnewid Tîm Bechgyn 1 - 2il; Tîm Bechgyn Iau - 2il
Colin Jones - 2il 1500m - Bechgyn Iau